



Cwricwlwm

Mathemateg a

Rhifedd



Cynnwys

Testun	Cynnwys	Rhif y Dudalen
Egwyddorion Cynllunio	Meistrolaeth. Blocio yn erbyn cymysgu. Nodau ac amcanion.	4
Beth, Sut a Pham?	Beth y dylem ei ddysgu a pham? Sut y dylem ei ddysgu? Sut y bydd hyn yn cefnogi ein dysgwyr i gyflawni'r pedwar diben?	6
Egwyddorion Cynnydd	Y pum hyfedredd mathemategol: Dealltwriaeth gysyniadol. Cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau. Rhuglder. Rhesymu rhesymegol. Cymhwysedd strategol.	12
Asesu	Profion mewnol. Pecynnau tasgau ychwanegol. Cwestiynau Diagnostic Questions. Prawf diwedd uned. Arholiad diwedd blwyddyn. Tasg asesu No More Marking. Gwaith Cartref. Gwaith Dosbarth. Cod Cywiro.	15
Cynllun Gwaith Blwyddyn 7	Cwisiau Lefelu. Croeso i Ysgol y Creuddyn. Cyflwyno Onglau. Trin Data ac Ystadegaeth 1. Cyflwyno Canrannau. Arholiad. Cyfesurynnau yn y Pedwar Pedrant.	18
Cynllun Gwaith Blwyddyn 8	Ffactorau a Lluosrifau. Cyflwyno Algebra. Mesur Siapiau 1. Trin Data ac Ystadegaeth 2. Arholiad. Diwedd Blwyddyn 8.	31


Testun	Cynnwys	Rhif y Dudalen
Cynllun Gwaith Blwyddyn 9	Rhannau o Rif. Mesur Siapiau 2. Datblygu Algebra. Trin Data ac Ystadegaeth 3. Arholiad. Gweithio efo Arian. Graffiau Llinell Syth. Symud efo'r Sphero.	43
Cynllun Gwaith Blwyddyn 10	Trin Data ac Ystadegaeth 4. Pwerau ac Israddau. Mesur Siapiau 3. Ffracsiynau, Canrannau a Degolion. Datblygu Algebra 2. Mesur Solidau. Manwl Gywirdeb.	59
Cynllun Gwaith Blwyddyn 11	Datblygu Algebra 3. Mesur Siapiau 4. Datblygu Tebygolrwydd. Datblygu Algebra 4. Mesur Siapiau 5. Diwedd Blwyddyn 11.	75

Egwyddorion Cynllunio

Mae ein cwricwlwm mathemateg a rhifedd wedi ei selio ar ein dehongliad o **feistrolaeth**, ble mae'r dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth [ddofn, tymor hir, diogel a hyblyg](#) o fathemateg a rhifedd.

Mae ein cynllun gwaith wedi'i hollti i 5-7 pecyn gwaith bob blwyddyn. Ym mhob un o'r rhain, rydym yn astudio cyfres o destunau mewn **dyfnder** dros nifer o wythnosau, i gydnabod effaith [cromlin anghofio Ebbinghaus](#) (isod). Trwy ail-ymweld a datblygu'r un testunau dros gyfnod estynedig o amser, ein gobaith yw gwreiddio gwybodaeth er mwyn ei adalw yn y dyfodol, gan gofio dyfyniad Daniel Willingham "[cof yw gwaddod meddwl](#)".



Typical Forgetting Curve for Newly Learned Information



Mae [ymchwil yn dangos](#) bod myfyrwyr yn ffafrio astudio testunau mewn **blocciau** yn erbyn eu hastudio wedi'u cymysgu, ac mae hyn yn cael ei gefnogi gan lais ein dysgwyr. Yn ystod Tachwedd 2024, atebodd ein myfyrwyr blwyddyn 9 y cwestiynau canlynol mewn holiadur ar-lein:

“Dwi’n mwynhau fy ngwersi mathemateg”
(108 ymateb)

“Mae gwaith yn y gwersi mathemateg yn...”
(106 ymateb)




Mae'r atebion uchod yn dangos bod myfyrwyr yn hoffi ein system o ddysgu mewn blocciau estynedig, ond rydym hefyd yn ymwybodol bod ymchwil yn dangos bod [dysgu mewn blocciau yn llai effeithiol na dysgu gyda'r testunau wedi'u cymysgu](#). I'r perwyl hynny, rydym wedi dylunio cyfres o **becynnau tasgau ychwanegol** i'w defnyddio ar gychwyn gwersi, ble rydym yn adalw gwybodaeth flaenorol. Mae'r gweithgareddau yn y pecynnau yma'n cynnwys [problemau heb nod](#), [sialensiau diagram Venn](#), [problemau 'SSDD'](#) a [pharau enghraifft-ymarfer](#). Y nod yw bod ein **system hybrid** o ddysgu mewn blocciau a chymysgu testunau blaenorol yn arwain at fodlonrwydd ein dysgwyr a'r ddealltwriaeth gorau posib.

Mae **nodau'r** adran fathemateg yn cynnwys:

- (1) Datblygu mwynhad dysgwyr o fathemateg.
- (2) Datblygu dysgwyr fel eu bod yn cyrraedd eu potensial ar ba bynnag lefel o fathemateg sy'n briodol.
- (3) Datblygu'r gallu i gymhwyso mathemateg mewn cyd-destun.
- (4) Hyrwyddo defnydd effeithiol o dechnoleg.

Mae **amcanion** yr adran fathemateg yn cynnwys:

- (1) Cyflwyno'r pwnc mewn ffordd ddiddorol, gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau.
- (2) Annog dyfalbarhad a gwydnwch, gan ddatblygu meddylfryd twf.
- (3) Arfogi dysgwyr efo banc o strategaethau a thechnegau y gellid eu cymhwyso'n hyblyg.
- (4) Annog dysgwyr i ddysgu a chymhwyso ffeithiau sylfaenol; termau; confensiynau a chanlyniadau mathemategol.
- (5) Meithrin gallu'r dysgwyr i osod gwaith yn drefnus, destlus a dealladwy, er mwyn cyfathrebu'n effeithiol ar lafar neu ar bapur.





Mae [canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddatblygu gweledigaeth ar gyfer dylunio cwricwlwm](#) yn nodi y dylai ysgolion ac ymarferwyr ystyried y canlynol.

- Beth y dylem ei ddysgu a pham?
- Sut y dylem ei ddysgu?
- Sut y bydd hyn yn cefnogi ein dysgwyr i gyflawni'r pedwar diben?

Bydd y bennod hon yn ystyried pob un o'r cwestiynau uchod yn eu tro.

(1) Beth y dylem ei ddysgu a pham?

Yn y maes dysgu a phrofiad mathemateg a rhifedd, mae [4 datganiad o'r hyn sy'n bwysig](#):


- Defnyddir y system **rif** i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.
- Mae **algebra** yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol.
- Mae **geometreg** yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.
- Mae **ystadegau** yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.

Rydym wedi craffu ar y disgrifiadau dysgu sy'n gysylltiedig â phob un o'r datganiadau uchod, gan lunio trosolwg lefel uchel o drefn addysgu posib ar gyfer dysgwr sydd ar darged i dderbyn gradd A* mewn arholiad TGAU.

Mae'r trosolwg yma i'w weld dros y tri thudalen nesaf.

- Datblygwyd fersiwn cyntaf o'r trosolwg yn 2016 mewn ymateb i'r arholiadau Rhifedd a Mathemateg TGAU diwygiedig. Mae'r rhain wedi cael eu mireinio ar gyfer dibenion y cwricwlwm newydd, gyda'r fersiwn presennol wedi'i addasu ar gyfer y cwrs TGAU newydd (Gorffennaf 2025).
- Treuliyd cyfnod estynedig yn trafod y drefn fwyaf effeithiol ar gyfer addysgu'r testunau, gan sicrhau dilyniant esmwyth o un flwyddyn i'r nesaf. Er enghraifft, mae rhifau sgwâr (blwyddyn 7) yn ymddangos cyn yr ail isradd (blwyddyn 8) a Theorem Pythagoras (blwyddyn 9).
- Rydym wedi gwahanu testunau tebyg, er enghraifft cymedr/modd/canolrif a trawsfudo/cylchdro/adlewyrchu/helaethu. Mae hyn yn ymgais i geisio osgoi dryswch rhwng y testunau hyn, ac yn seiliedig ar [brofiadau Bruno Reddy a Kris Boulton yn addysgu yn King Solomon's Academy, Llundain](#).
- Rydym yn adeiladu ar ben testunau, nid yn eu haildrodd o flwyddyn o flwyddyn.

Taith Ddysgu Mathemateg Ysgol y Creuddyn



	Blwyddyn 7 (4 gwrs)	Blwyddyn 8 (3 gwrs)	Blwyddyn 9 (4 gwrs)	Blwyddyn 10 (4 gwrs)	Blwyddyn 11 (4 gwrs)
Tymor 1	<p>Pecyn Rhifedd Cyfrifiadau +, -, ×, ÷. Lluosi Hir. Rhannu Hir.</p> <p>(1) Croeso i Ysgol y Creuddyn Odrifau, Eilrifau, Lluosrifau. Termau Geometregol. Enwau Polygonau. Rhifau Sgwâr, Rhifau Ciwb. Amser. Adlewyrchiad. Cymesuredd Cylchdro. Trawsfurfiadau: Trawsfudo.</p> <p>(2) Cyflwyno Onglau Onglau (o amgylch pwynt, llinell syth, croesfertig, triongl); llunio; mesur; ongl allanol triongl). Trionglau.</p>	<p>(6) Ffactorau a Lluosrifau Ail Isradd, Trydydd Isradd. Ffactorau, Rhifau Cysefin, Ffurf Indecs, FFCM, LLCLL. Diagramau Venn.</p> <p>(7) Cyflwyno Algebra Patrymau Rhif. Rheol Term Nesaf. Llunio Mynegiadau. Amnewid. Symleiddio. Hafaliadau llinol.</p>	<p>(11) Rhannau o Rif Cymarebau. Ffracsiynau. Cilyddion.</p> <p>(12) Mesur Siapiau 2 Cylchoedd. Cylchedd ac Arwynebedd Cylchoedd. Papur Isomedrig. Golygon. Theorem Pythagoras 2-D. Llunio wrth Raddfa.</p> <p>(13) Datblygu Algebra Nfed Term Llinol. Ehangu Cromfachau (Sengl, Dwbl). Hafaliadau ffracsiynol.</p>	<p>(18) Trin Data ac Ystadegaeth 4 Cymharu cyfartaleddau. Holiaduron. Samplu. Polygon Amlder. Diagramau Blwch a Blewyn. Histogramau. (19) Pwerau ac Israddau Rheolau Indecsau. Syrdiau. Rhifau Cymarebol ac Anghymarebol. Y Ffurf Safonol. Newidiadau cyfrannol effeithiol. Gwrthdroi Canrannau. Llunio graffiau cwadratig, ciwbig, cilyddol. (20) Mesur Siapiau 3 Trigonometreg Sin, Cos, Tan. Trawsfurfiadau: Helaethiad. Perimedr ac Arwynebedd Siapiau Cyfansawdd.</p>	<p>(25) Datblygu Algebra 3 Cyfrannedd Union a Gwrthdro. Nfed Term Cwadratig. Anhafaleddau; Rhanbarthau. (26) Mesur Siapiau 4 Siapiau Cyfath. Profi Cyfathiant. Onglau Polygonau. Theoremau'r Cylch. Trawsfurfiadau: Cyfuniadau. (27) Datblygu Tebygolrwydd Amlder Cymharol. Digwyddiadau Annibynnol, Annibynnol ar ei gilydd. Tebygolrwydd Amodol. Diagramau Canghennog.</p>
Tymor 2	<p>(3) Trin Data ac Ystadegaeth 1 Cymedr. Amcangyfrif cymedr o dabl. Amrediad. Marciau Rhifo. Grwpio Data. Siart Bar, Diagram Amlder Grŵp. Siart Cylch.</p> <p>(4) Cyflwyno Canrannau Gwerth Lle. Rhifau mewn geiriau / mewn ffigurau. Talgrynnu uned; 10; 100; 1000; llwydd degol. Canrannau. Elw/Colled. Llog Syml.</p>	<p>(8) Mesur Siapiau 1 Mesurau Llinol. Darllen Graddfeydd. Graffiau Trawsnewid. Pedrochrau. Amcangyfrif Arwynebedd. Perimedr ac Arwynebedd Trionglau a Phedrochrau. Onglau pedrochrau. Enwau a Rhwydi Solidau.</p> <p>(9) Trin Data ac Ystadegaeth 2 Modd. Dosbarth Modd. Pictogram, Diagram Llinellau Fertigol, Graff Llinell. Diagramau Gwasgariad. Tebygolrwydd Geiriau.</p>	<p>(14) Trin Data ac Ystadegaeth 3 Canolrif, Dosbarth Canolrifol, Amrediad Rhyngchwartel. Diagram Amlder Cronnus. Tebygolrwydd Rhifau. (15) Gweithio efo Arian Adlog. Arian Tramor. Biliau'r Cartref.</p>	<p>(21) Ffracsiynau, Canrannau a Degolion Cywerthoedd rhwng Canrannau, Cymarebau, Degolion a Ffracsiynau. Newid Degolion Cylchol i Ffracsiynau. (22) Datblygu Algebra 2 Ffactorio syml. Ffactorio mynegiadau cwadratig, gan gynnwys y gwahaniaeth rhwng dau sgwâr. Hafaliadau cydamserol. Newid testun syml. Hafaliad, Fformiwla, Unfathiant, Mynegiad.</p>	<p>(28) Datblygu Algebra 4 Graddiant (cyflymiad); Rheol y Trapesiwm. Newid testun cymhleth. Datrys Hafaliadau Cwadratig efo'r Fformiwla. Ffracsiynau Algebraidd. (29) Mesur Siapiau 5 Rheol Sin, Rheol Cosin, Arwynebedd Triongl. Graffiau Sin, Cos, Tan. (30) Diwedd Blwyddyn 11 AER, APR. Cynnig a Gwella.</p>
Tymor 3	<p>(5) Cyfesurynnau yn y Pedwar Pedrant Cyfesurynnau. Canolbwynt Llinell. Cyfesurynnau Coll.</p>	<p>(10) Diwedd Blwyddyn 8 Rhifau Cyfeiriol. Degolion. Onglau llinellau paralel. Trawsfurfiadau: Cylchdro.</p>	<p>(16) Graffiau Llinell Syth Graddiant. Graffiau $x = a$, $y = b$, $y = mx + c$. Graddiant Llinellau Paralel. Trawsfurfiadau: Adlewyrchiad.</p> <p>(17) Symud efo'r Sphero Graffiau Teithio. Arwynebedd o dan graff cyflymder-amser. Lluniadu efo onglydd a chwmpas (Haneru llinell, haneru ongl, perpendicwlar o bwynt i linell). Cyfeiriannau. Locws.</p>	<p>(23) Mesur Solidau Cyfaint Solidau. Hyd arc ac Arwynebedd Sector. Cyfaint Solidau Cyfansawdd. Siapiau Cyflun. Theorem Pythagoras 3-D. (24) Manwl Gywirdeb Figurau Ystyrion. Amcangyfrif. Dull Hanner Uned. Manwl Gywirdeb Priodol. Mesurau Cyfansawdd.</p>	

Trosolwg

Allwedd: **Haen Uwch yn unig.** *Efallai Angen Cyfrifiannell.*

	Blwyddyn 7 (4 gwrs)	Blwyddyn 8 (3 gwrs)	Blwyddyn 9 (4 gwrs)	Blwyddyn 10 (4 gwrs)	Blwyddyn 11 (4 gwrs)
Rhif	Cyfrifiadau +, -, ×, ÷. Lluosi Hir. Rhannu Hir. Gwerth Lle. Rhifau mewn geiriau / mewn ffigurau. Odrifau, Eilrifau, Lluosrifau. Talgrynnu uned; 10; 100; 1000; llefydd degol. Canrannau. Elw/Colled. Llog Syml. Rhifau Sgwâr, Rhifau Ciwb. Amser.	Ffactorau, Rhifau Cysefin, Ffurf Indecs, FFCM, LLCLL. Rhifau Cyfeiriol. Degolion. Ail Isradd, Trydydd Isradd. Diagramau Venn.	Cymarebau. Talgrynnu ffigurau ystyrllon. Amcangyfrif. Ffracsiynau. Cilyddion. Adlog. Arian Tramor. Biliau'r Cartref.	Rheolau Indecsau. Cywerthoedd rhwng Canrannau, Cymarebau, Degolion a Ffracsiynau. Syrdiau. Rhifau Cymarebol ac Anghymarebol. Y Ffurf Safonol. Newidiadau cyfrannol effeithiol. Gwrthdroi Canrannau. Newid Degolion Cylchol i Ffracsiynau. Dull Hanner Uned. Manwl Gywirdeb Priodol.	AER, APR.
Algebra	Cyfesurynnau. Canolbwynt Llinell. Cyfesurynnau Coll.	Patrymau Rhif. Rheol Term Nesaf. Graffiau Trawsnewid. Llunio Mynegiadau. Symleiddio. Amnewid. Hafaliadau llinol.	Graffiau Teithio. Graddiant. Arwynebedd o dan graff cyflymder-amser. Nfed Term Llinol. Graffiau $x = a$, $y = b$, $y = mx + c$. Graddiant Llinellau Paralel. Ehangu Cromfachau (Sengl, Dwbl). Hafaliadau ffracsiynol.	Llunio graffiau cwadrateg, ciwbig, cilyddol. Ffactorio syml. Ffactorio mynegiadau cwadrateg, gan gynnwys y gwahaniaeth rhwng dau sgwâr. Hafaliadau cydamserol. Newid testun syml. Hafaliad, Fformiwla, Unfathiant , Mynegiad.	Nfed Term Cwadrateg. Graddiant (cyflymiad); Rheol y Trapesiwm. Anhafaleddau; Rhanbarthau. Newid testun cymhleth. Ffracsiynau Algebraidd. Datrys Hafaliadau Cwadrateg efo'r Fformiwla. Cynnig a Gwellu.
Geometreg	Termau Geometregol. Enwau Polygonau. Trianglau. Onglau (o amgylch pwynt, llinell syth, croesfertig, triongl; llunio; mesur; ongl allanol triongl). Adlewyrchiad. Cymesured Cylchdro. Trawsffurfiadau: Trawsfudo.	Pedrochrau. Enwau a Rhwydi Solidau. Onglau llinellau paralel; pedrochrau. Trawsffurfiadau: Cylchdro. Mesurau Llinol. Darllen Graddfeydd. Amcangyfrif Arwynebedd. Perimedr ac Arwynebedd Trianglau a Phedrochrau.	Cylchoedd. Papur Isomedrig. Golygon. Lluniadu efo onglydd a chwmpas (Haneru llinell, haneru ongl, perpendicwlar o bwynt i linell). Theorem Pythagoras 2-D. Trawsffurfiadau: Adlewyrchiad. Cyfeiriannau. Llunio wrth Raddfa. Locws. Cylchedd ac Arwynebedd Cylchoedd.	Siapiau Cyflun. Theorem Pythagoras 3-D. Trigonometreg Sin, Cos, Tan. Trawsffurfiadau: Helaethiad. Mesurau Cyfansawdd. Perimedr ac Arwynebedd Siapiau Cyfansawdd. Hyd Arc ac Arwynebedd Sector. Cyfaint Solidau. Cyfaint Solidau Cyfansawdd.	Siapiau Cyfath. Profi Cyfathiant. Onglau Polygonau. Rheol Sin, Rheol Cosin, Arwynebedd Triongl. Graffiau Sin, Cos, Tan. Theoremau'r Cylch. Trawsffurfiadau: Cyfuniadau.
Ystadegau	Cymedr. Amcangyfrif cymedr o dabl. Amrediad. Marciau Rhifo. Grwpio Data. Siart Bar, Diagram Amllder Grŵp. Siart Cylch.	Modd. Dosbarth Modd. Pictogram, Diagram Llinellau Fertigol, Graff Llinell. Diagramau Gwasgariad. Tebygolrwydd Geiriau.	Canolrif, Dosbarth Canolrifol, Amrediad Rhyngchwartel. Diagram Amllder Cronnus. Tebygolrwydd Rhifau.	Cymharu cyfartaleddau. Holiaduron. Samplu. Polygon Amllder. Diagramau Blwch a Blewyn. Histogramau.	Amllder Cymharol. Diagramau Canghennog. Digwyddiadau Annibynnol, Annibynnol ar ei gilydd. Tebygolrwydd Amodol.

(2) Sut y dylem ei ddysgu?

Rydym yn addysgu'r cynnwys ar y tri thudalen gynt trwy gyfres o 30 o becynnau gwaith, i gyd wedi'u hawduro'n fewnol ac yn cael eu cefnogi gan dros 400 o fideos adolygu ar y sianel YouTube [Adolygu Mathemateg](#). Mae'r holl ddeunyddiau ar gael i'w lawrlwytho ar ein gwefan adrannol, www.mathemateg.com, gyda'r deunyddiau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r pecynnau gwaith yn rhoi deunydd crai i athrawon yr adran eu defnyddio, ac mae'r canllawiau canlynol ar waith i awgrymu sut dylai'r cynnwys gael ei addysgu.

(a) Yn ei lyfr "Why don't students like school", mae Daniel Willingham yn dadlau **bod angen gwybodaeth er mwyn datblygu sgiliau**. Er enghraifft, ystyriwch y frawddeg ganlynol o nofel: "I believed him when he said he had a lake house, until he said it's only forty feet from the water at high tide". Er mwyn deall pam bod y person yn y nofel yn dweud celwydd, rhaid meddu ar y wybodaeth bod gan lynnoedd dim llanw. Heb y wybodaeth yma, mae'n anodd (os nad amhosib) dehongli'r frawddeg, ac mae hyn yn ein hatgoffa bod angen cyflwyno gwybodaeth yn gyntaf cyn gallu cyflawni sgil fel dehongli'r frawddeg. Yn ein pecynnau gwaith, rydym wastad yn cyflwyno gwybodaeth yn gyntaf (ar ffurf theori ac enghraifft) cyn gofyn i ddysgwyr ateb set o ymarferion.

(b) Rydym yn dilyn rhai o egwyddorion **theori baich gwybyddol**, a luniwyd yn wreiddiol yn yr 1980au gan John Sweller yn Awstralia. "*Cognitive load theory aims to explain how the information processing load induced by learning tasks can affect students' ability to process new information and to construct knowledge in long-term memory. Its basic premise is that human cognitive processing is heavily constrained by our limited working memory which can only process a limited number of information elements at a time.*"

- Mae ein pecynnau tasgau ychwanegol yn darparu cyfres o barau enghraifft-ymarfer, sy'n rhoi ar waith yr effaith enghreifftiau ("*worked-example effect*") sy'n dweud bod dysgwr nofis yn elwa o weld enghreifftiau o arfer dda.
- Mae'r diagramau yn ein pecynnau yn ceisio cyflwyno gwybodaeth bwysig gyda'i gilydd, nid ar wahân, i roi sylw i'r effaith hollti sylw ("*split-attention effect*"). Yma mae'r theori'n nodi bod darparu gwybodaeth ar wahân (e.e. diagram ar un dudalen a'r testun ar dudalen arall) yn goriwytho cof gweithiol dysgwr nofis.
- Mae cyfres o broblemau heb nod yn ein pecynnau tasgau ychwanegol, i gymryd mantais o'r effaith heb nod ("*goal-free effect*") sy'n ymarfer strategaeth bwysig ar gyfer datrys problemau aml-gam.

(c) Rydym yn annog y defnydd o **drionolion** er mwyn modelu testunau megis datrys hafaliadau neu weithio efo rhifau cyfeiriol. Mae trinolion ffisegol megis cownteri dwy ochr, teils algebra a rhodenni Cuisenaire ar gael yn yr adran, ac rydym yn defnyddio'r gwefannau <https://mathigon.org/polypad> a <https://mathsbot.com/> fel trinolion digidol.


(ch) Rydym yn **ymchwilio'n barhaus** i ddatblygiadau ym myd addysg trwy ddefnyddio adnoddau megis y rhai canlynol.

- Llyfrau fel "Seven myths about education" gan Daisy Christodoulou, "How I wish I'd taught maths" gan Craig Barton, "Teach like a champion" gan Doug Lemov a "Cleverlands" gan Lucy Crehan.
- Gwefannau fel <https://www.resourceaholic.com/> (Jo Morgan), <https://geomaths.co.uk/> (Jack Nicol), <http://www.mrbartonmaths.com/index.html> (Craig Barton), <https://donsteward.blogspot.com/> (Don Steward), <https://startingpointsmaths.com/> (Chris McGrane).
- Mynychu cynadleddau fel rhai gan [Complete Maths](#) (Mark McCourt) a'r [FMSPW](#) (Dominic Oakes).
- Podlediadau megis [Mr Barton Maths Podcast](#), [ERRR gan Olie Lovell](#), [Addysg Cymru](#).
- Cyfrifon X megis rhai [Gareth Ffowc Roberts](#), [Adam Boxer](#), [Daisy Christodoulou](#) a [Dylan Wiliam](#).

(d) Rydym yn ceisio dilyn cyngor Tom Sherrington yn ei lyfr "The Learning Rainforest" y dylid anelu i gael **cymhareb 80% : 20% rhwng dulliau dysgu "traddodiadol" a dulliau dysgu "cynyddol"**. Rydym felly'n annog dulliau traddodiadol ble mae [maint yr effaith](#) yn uchel – megis darparu eglurhad clir, strategaethau metawybyddol (fel defnyddio llyfrau adolygu neu gwestiynau diagnostic) a thechnegau meistroli – ac yn ceisio osgoi dulliau ble mae maint yr effaith yn isel (megis addysgu trwy ddarganfod).

(3) Sut y bydd hyn yn cefnogi ein dysgwyr i gyflawni'r pedwar diben?

Ym mathemateg a rhifedd, rydym yn cyfrannu i gyflawni'r pedwar diben trwy'r dulliau canlynol.



Rydym hefyd yn cydnabod nad yw addysg yn cymryd lle o fewn gwersi yn unig. Dyma rai o'r profiadau mae'r adran yn ei gynnig fel gweithgareddau allgyrsiol.

- Clwb Recorde amser cinio i flynyddoedd 7 ag 8, ble mae cyfle i chwarae gemau bwrdd; rhaglennu robotiaid Sphero; paratoi at gystadlaethau'r UKMT; a chwblhau posau mathemategol.
- Twrnaint dartiau blynyddol i hyrwyddo mathemateg pen a dangos yr effaith o ymarfer ar berfformiad.
- Twrnaint Rocket League Sphero i ddatblygu sgiliau motor main.
- Cymryd rhan mewn cystadlaethau a osodwyd gan yr UKMT a'r Gymdeithas Wyddonol.
- Trip mathemateg i Lundain ar gyfer blynyddoedd 8 a 9.
- Gweithgareddau diwrnod π megis cystadleuaeth pobi a chystadleuaeth cofio digidau π .
- Disgo Bingo yn neuadd yr ysgol.

Egwyddorion Cynnydd

Ym Maes Mathemateg a Rhifedd, mae'r model cynnydd yn seiliedig ar ddatblygu pum hyfedredd rhyngddibynnol, a amlinellir isod.


- Dealltwriaeth gysyniadol.
- Cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau.
- Rhuglder.
- Rhesymu rhesymegol.
- Cymhwysedd strategol.

Yn y bennod hon, byddwn yn amlinellu rhai o'r ffyrdd rydym yn datblygu'r hyfedreddau mathemategol.


(1) Dealltwriaeth gysyniadol

- Hyrwyddo dealltwriaeth o'r cysyniad o dan sylw yn lle dilyn rheolau mecanistig. Er enghraifft, hyrwyddo datrys hafaliad gan ddefnyddio teils algebra ar glorian, yn hytrach na "newid ochr, newid arwydd", ac adnabod arwynebedd petryal fel y maint o le mae'r petryal yn ei ddefnyddio, yn hytrach na "hyd lluosli lled".
- Dyfnhau dealltwriaeth o destun penodol trwy ddefnyddio [aneghreiffiau](#) yn ogystal ag enghreifftiau.

Er enghraifft:



- Annog dysgwyr i egluro'u hatebion yn llawn yn y dosbarth (arddangos eu dealltwriaeth). Dewis disgyblion ar hap i wneud hyn ("cold calling").
- Defnyddio amrywiaeth o ffyrdd o gynrychioli sefyllfa, e.e. modelu rhifau cyfeiriol gan ddefnyddio llinell rhif, cownteri dwy ochr, neu gyd-destunau megis tymheredd ag arian.
- Bod yn ymwybodol o'r cysylltiadau rhwng gwahanol rannau o fathemateg, er enghraifft y cysylltiad rhwng y cwestiynau canlynol.
 - Mewn rysâit ar gyfer gwneud 9 sgonsen fach, mae angen 270 g o flawd. Faint o flawd fyddai ei angen i wneud 15 o'r sgons bach?
 - Os yw 9 llathen = 27 troedfedd, sawl troedfedd sydd mewn 15 llathen?
 - Datrysych yr hafaliad $9 : 270 = 15 : x$.
 - Os yw'r petryalau isod yn betryalau cyflun, darganfyddwch werth x .



(2) Cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau

- Hyrwyddo arfer dda wrth osod allan gwaith, e.e.
 - Ysgrifennu un rhif ym mhob sgwâr ar bapur sgwariau 1 cm.
 - Defnyddio pren mesur i lunio diagramau.
 - Dangos y gwaith cyfrifo yn llawn.
 - Cofio cynnwys unedau cywir ar ddiwedd ateb.
 - Nodi'r dull talgrynnu ar ddiwedd ateb.
- Annog y defnydd cywir o'r hafalnod, e.e. osgoi ysgrifennu $10 \times 5 = 50 \div 2 = 25 \text{ cm}^2$ wrth gyfrifo arwynebedd triongl efo sail 10 cm ag uchder 5 cm.
- Manteisio ar y cyfle i sôn am gysylltiad Cymru efo rhai o'r symbolau rydym yn dod ar eu traws, e.e. cysylltiad Robert Recorde efo'r hafalnod $=$, a chysylltiad William Jones efo'r rhif π .

**William Jones**

Mae William Jones yn un o feibion enwocaf Ynys Môn. Fe'i ganed yn 1675 ym mhlwyf Llanfihangel Tre'r-beirdd, yng nghanol yr ynys. Daeth ei ddoniau mathemategol cynnar i sylw'r Arglwydd Bulkeley, a drefnodd waith iddo mewn cyfrifydd yn Llundain.

Rhwng 1695 a 1702, dysgodd fathemateg i griwiau llongau rhyfel y llynges. Datblygodd ddiddordeb mewn mordwyo, a chyhoeddodd lyfr ar y testun yma yn 1702. Pedair blynedd yn ddiweddarach, cyhoeddodd ei brif lyfr ar ffurf crynodeb o gyflwr mathemateg ei gyfnod, *Synopsis palmariorum matheseos*. Ystyr y teitl yn fras yw 'Crynodeb o orchestion mathemateg'. Yn y llyfr hwn y mae'r arwydd π yn ymddangos am y tro cyntaf i ddynodi cymhareb cylchedd cylch i'w ddiamedr. Yn yr iaith Roeg, π yw llythren gyntaf y gair am berfferi a hefyd am berimedr. Tybir fod y naill neu'r llall wedi dylanwadu ar ddewis y symbol arbennig hwn.


- Bod yn ofalus efo ein defnydd o iaith, e.e. ynganu'r swm " $7 - -4$ " fel "saith tynnu negatif pedwar", nid "saith tynnu meinws pedwar".
- Peidio bod yn swil defnyddio'r derminoleg fathemateg gywir, e.e. hafalnod, vinculum, data ansoddol.

(3) Rhuglder

- Cyfleoedd i ymarfer sgiliau sylfaenol yn ystod sesiynau ymyrraeth:
 - Blwyddyn 7: Sesiynau cofrestru (sgiliau cyfrifo) a sesiynau Grym Rhif (paru efo myfyriwr mathemateg o'r chweched dosbarth).
 - Blwyddyn 8: Sesiynau Rhufeiniaid Rhifedd adeg cofrestru.
 - Blwyddyn 9: Sesiynau cofrestru (sgiliau cyfrifo a rhesymu).
 - Blwyddyn 10: Pecyn gwaith "Yr Anhysbys" yn ymarfer sgiliau sylfaenol algebra.
 - Blwyddyn 11: Pecyn gwaith "Y Canllaw Cyfrifo" er mwyn ymarfer cyfrifo'n effeithiol.
- Annog cywirdeb wrth gyfrifo trwy ddefnyddio dulliau amgen i gyfrifo'r un ateb, neu ddefnyddio amcangyfrif i wirio os yw'r ateb yn gwneud synnwyr.
- Cwisiau ffurfiannol yn ymddangos ym mhob un o'r pecynnau tasgau ychwanegol.


(4) Rhesymu rhesymegol

- Pecynnau gwaith cartref rhifedd blynyddoedd 7–9 yn cynnwys tasg rhesymu wythnosol.
- Amlygu'r perthnasoedd rhwng gwahanol rannau o fathemateg. Er enghraifft, mae'r dull diagram Venn o ddarganfod lluosrif cyffredin lleiaf dau rif yn adalw gwaith blaenorol ar ffactorau, diagramau Venn a llusosi rhifau.




(5) Cymhwysedd strategol

- Pecyn gwaith “DAMEG” yn cyflwyno strategaethau gwahanol ar gyfer datrys problemau aml-gam, er enghraifft gwneud rhestr; llunio diagram; defnyddio model bar; a gweithio’n systematig.



- Cwestiynau “SSDD” yn y pecynnau tasgau ychwanegol yn annog dysgwyr i ddefnyddio strategaethau gwahanol er mwyn taclo problemau sy’n defnyddio’r un sail.
- Hyrwyddo trafodaeth o ddulliau gwahanol ar gyfer taclo’r un broblem, e.e. sut dylid darganfod arwynebedd yr octagon afreolaidd isod?



Asesu


Rydym yn defnyddio'r dulliau canlynol er mwyn asesu lefel dealltwriaeth ein dysgwyr.

(1) Profion cychwynnol blwyddyn 7 (crynodol)

Wrth gyrraedd yr ysgol, mae ein dysgwyr yn ateb cyfres o gwisiau amlddewis yn seiliedig ar lefelau'r cwricwlwm blaenorol. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth i'r adran am ddysgwyr efo anghenion dysgu ychwanegol posib, neu roi cyfle i ni adnabod dysgwyr mwyaf galluog a thalentog. Gan ddefnyddio'r un cwestiynau o flwyddyn i flwyddyn, mae hyn yn rhoi cyfle i ni gymharu blynyddoedd gwahanol a rhoi syniad i ni o gyrhaeddiad posib y garfan ar ddiwedd blwyddyn 11.

Cwestiwn 16

Beth yw arwynebedd y siâp?



A	B	C	D	E
12 cm ²	6 cm ²	24 cm ²	16 cm ²	8 cm ²

(2) Pecynnau tasgau ychwanegol (ffurfiannol)

Mae'r pecynnau tasgau ychwanegol yn cynnwys amrywiaeth o dasgau asesu ble nad oes oblygiadau i'r asesu ("low-stakes"). Gall y rhain roi syniad i'r athro ar ddealltwriaeth dysgwyr o'r rhagofynion ar gyfer yr uned o dan sylw, neu roi cyfle i adalw gwybodaeth flaenorol.

(3) Cwestiynau Diagnostic Questions (ffurfiannol)

Ar wefannau [Diagnostic Questions](#) ag [Eedi](#), mae casgliad o gwestiynau diagnostig ar gyfer bob pecyn gwaith. Mae'r rhain wedi'u dylunio'n ofalus i geisio amlygu camsyniadau ynghylch testunau penodol. Mae'r wefan yn caniatáu i ddysgwyr weld eu cylch cynnydd (ac felly gweld eu cryfderau a gwendidau yn y pwnc), a hefyd yn rhoi cyfle i ddysgwyr geisio delio efo unrhyw gamsyniadau.

(4) Prawf diwedd uned (crynodol)


Mae prawf safonol ar ddiwedd bob un o'r 30 pecyn gwaith. Mewn rhai profion, rydym yn caniatáu dysgwyr i ddefnyddio'u llyfrau adolygu yn y prawf, er mwyn hyrwyddo'r defnydd cywir ac effeithiol o'r llyfrau hyn. Mewn profion eraill rydym yn caniatáu dysgwyr i drafod ymysg ei gilydd yn ystod 5 munud cyntaf y prawf (dim ysgrifennu), er mwyn lleihau pryderon am gynnwys y prawf. Gan fod cwestiynau bob prawf wedi eu mapio i lefelau'r cwricwlwm blaenorol, gallwn gael syniad o gyrhaeddiad dysgwyr trwy bennu lefel iddynt, eto yn seiliedig ar gynnwys y cwricwlwm blaenorol.

(5) Arholiad diwedd blwyddyn (crynodol)

Rydym yn cynnal arholiad yn ystod bob blwyddyn ysgol er mwyn gosod y dysgwyr mewn setiau ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Mae papur digyfrifiannell a chyfrifiannell yn ffurfio bob set o arholiadau mewnol, gyda phob cwestiwn eto wedi'u mapio i lefelau'r cwricwlwm blaenorol.

(6) Tasg asesu No More Marking (crynodol)

Bob blwyddyn rydym yn rhedeg tasg asesu gan ddefnyddio'r wefan [No More Marking](#), ble rydym yn rhoi tudalen wag i'r dysgwyr a gofyn iddynt ateb y cwestiwn "Beth sydd yn wir mewn mathemateg?". Mae'r holl ysgol yn cwblhau'r dasg ac mae'r wefan yn darparu sgôr safonedig rhwng 1 a 200 iddynt ar ôl cwblhau'r isafswm o gymariaethau. Yn ystod eu taith trwy'r ysgol, mae sgôr safonedig y dysgwyr fel arfer yn cynyddu, a gallwn fesur faint o gynnydd mae dysgwyr penodol yn ei wneud o flwyddyn i flwyddyn.

**(7) Gwaith Cartref**

Credwn fod gwaith cartref yn:

- Hanfodol i ddiwallu gofynion y gwahanol gyrtsiau a gyflwynir i bob blwyddyn;
- Atgyfnerthu gwaith dosbarth trwy brofi dealltwriaeth o'r hyn a wnaed yn ystod y wers;
- Gyfle i'r disgybl ddatblygu'r sgil o weithio'n annibynnol;
- Fodd i ddarganfod cryfderau neu wendidau.

Mae'n arferiad gan aelodau'r adran osod gwaith cartref **o leiaf unwaith yr wythnos** i bob un o flynyddoedd 7 i 11. Ym mlynnyddoedd 12 ac 13 gall gwaith cartref ddilyn bron bob gwers.

Rydym yn defnyddio'r platfform Google Classroom er mwyn gosod gwaith cartref i'r dysgwyr, gan ddilyn polisi gwaith cartref yr ysgol.


(8) Gwaith Dosbarth

Mae'r adran yn dilyn canllawiau "marcio pedwar chwarter" Dylan William.

- Dylai'r athro (mewn beiro wyrdd) farcio tua chwarter o'r gwaith mae dysgwyr yn ei gynhyrchu.
- Dylai'r dysgwyr hunan-farcio (mewn coch) tua chwarter o beth maent yn ei gynhyrchu.
- Dylai tua chwarter o'r gwaith yn y llyfrau gael ei farcio (mewn glas) gan gyfoedion.
- Dylai'r chwarter arall o'r gwaith gael golwg sydyn drosto i sicrhau nid oes camgymeriadau amlwg yn amlygu'u hunain.

Dylai pawb (athrawon a dysgwyr) ddefnyddio'r cod cywiro rhifedd ar y dudalen nesaf.















Rydym hefyd yn defnyddio 5 strategaeth asesu ffurfiannol Dylan Wiliam, fel sy'n cael eu crynhoi gan Tom Sherrington yn y [blog yma](#).






Cod Cywiro Rhifedd

Ysgol y Creuddyn

	Ateb cywir	Angen unedau yn yr ateb	
	Gwaith arbennig	Angen dangos mwy o'r dull	
	Dull cywir yn dilyn gwall	Angen defnyddio pren mesur	
	Gwall arall	Angen defnyddio cwmpas	
	Rhif wedi ei gylchu: Camgymeriad	Camddarllen	
	Yr un camgymeriad yn cael ei ailadrodd islaw	Angen dangos y dull talgrynnu	
	Gwaith ddim yn gwneud synnwyr	Angen symleiddio'r ateb	

Graffiau a Siartiau

	Angen teitl	Angen graddfa addas	
	Angen echelinau addas	Angen label ar yr echelin	

Cynllun Gwaith Bl. 7

Testun	Mathemateg	Hyd	Lefel	Rhif y Dudalen
01 Cwisiau Lefelu	(a) Amrywiaeth o dopigau.	1 wythnos	3–6	19
02 Croeso i Ysgol y Creuddyn	(a) Yr adran fathemateg. (b) Lluosrifau. (c) Polygonau; llinellau arbennig. (ch) Odrifau ac eilrifau; rhifau sgwâr; rhifau ciwb. (d) Y cloc; y calendr; amserlenni. (dd) Cymesuredd. (e) Cymesuredd cylchdro; trawsfudo.	8–9 wythnos	2–5	20
03 Cyflwyno Onglau	(a) Mathau o onglau. (b) Mesur onglau. (c) Llunio onglau. (ch) Cyfrifo onglau. (d) Onglau mewn triongl.	6–7 wythnos	2–6	22
04 Trin Data ac Ystadegaeth 1	(a) Y cylch trin data dilyniannol. (b) Y cymedr. (c) Yr amrediad. (ch) Siartiau bar. (d) Cymedr data wedi'i grwpio. (dd) Siartiau cylch. (e) Ymchwiliad.	8–9 wythnos	3–7	24
05 Cyflwyno Canrannau	(a) Paratoi. (b) Cyfrifo canrannau. (c) Defnyddio canrannau.	7–8 wythnos	4–5	26
06 Arholiad	(a) Amrywiaeth o dopigau.	1 wythnos	2–7	28
07 Cyfesurynnau	(a) Y pedrant cyntaf. (b) Y pedwar pedrant. (c) Canolbwynt llinell. (ch) Defnyddio cyfesurynnau.	4 wythnos	4–6	29





CYNHALIOL Anghenion Dysgu Ychwanegol	CRAIDD	YMESTYNNOL Mwyaf Galluog a Thalentog
D.Y.B.	(a) Profion Lefelu. [2 wers.] Profion ar ffurf PowerPoint i'w cwblhau yn y dosbarth (20 munud yr un). Lefelau 3, 4, 5 a 6 yn cael eu hasesu. Atebion i'w llenwi ar y taflenni pwrpasol.	D.Y.B.

CWRICWLWM	ADNODDAU	CAMSJNIADAU	NODIADAU
Amrywiaeth o dopigau o'r hen lefelau 3-6.	4 prawf ar ffurf cyflwyniadau PowerPoint; 20 munud yr un. Taflenni ateb.		Deunyddiau Saesneg ar gael i'r dosbarth trochi. Y dysgwyr ADY i'w gael eu dewis ar sail ganlyniadau'r profion yma. Carfan "Grym Rhif" i'w dewis ar sail ganlyniadau'r profion yma (rhwng 30 a 40 ateb cywir).



CYNHALIOL Anghenion Dysgu Ychwanegol	CRAIDD	YMESTYNNOL Mwyaf Galluog a Thalentog
	(a) Yr adran fathemateg. [1 gwers.] Cyflwyniad i adnoddau'r adran; cynnwys y pecynnau; taith ddysgu.	
Lluosrifau 2-5 yn unig. Deunydd "Times Tables Rock Stars" ar gael i gynorthwyo dysgu tablu llusoi ar gof.	(b) Lluosrifau. [4 gwers.] Sut i benderfynu os yw rhif yn lluosrif 2-5 (Lefel 3) neu'n lluosrif 6-10 (Lefel 4). Ymchwiliad rhifau ISBN. Defnyddio diagramau Venn.	Gêm Fizz Buzz: gallu cwblhau hyd at 30 heb oedi.
	(c) Polygonau; Llinellau Arbennig. [3 gwers.] Enwi polygonau cyffredin efo rhwng 3 a 10 ochr (Lefel 2). Gwahaniaethu rhwng polygonau rheolaidd a rhai afreolaidd (Lefel 4). Adnabod llinellau fertigol; llorweddol; paralel a pherpendicwlar (Lefel 4).	Ymchwilio i enwau polygonau efo mwy na 10 ochr.
Defnyddio ciwbiau multilink i olrhain y rhifau sgwâr.	(ch) Odrifau ac Eilrifau; Rhifau Sgwâr; Rhifau Ciwb. [6 gwers.] Adnabod odrifau ac eilrifau (Lefel 2). Cyfuno odrifau ag eilrifau, e.e. odrif \times odrif = ? (Lefel 3). Adnabod a chyfrifo efo rhifau sgwâr a rhifau ciwb (Lefel 4). Ymchwiliad: beth yw gwerth y rhif euraid? Ymchwiliad: rhifau hapus.	Darganfod rhifau sgwâr palindromig. Penderfynu os yw rhif arbennig yn "hapus".
Defnyddio clociau analog i helpu'r dehongli.	(d) Y Cloc; Y Calendr; Amserlenni. [6 gwers.] Darllen a dehongli amserlenni (Lefelau 3 a 4). Trosi rhwng y cloc 12 awr a'r cloc 24 awr (Lefel 3). Darllen yr amser o gloc analog (Lefel 3). Misoedd y flwyddyn (Lefel 3). Penderfynu os yw blwyddyn benodol yn flwyddyn naid (Lefel 4). Taflenni gwaith Peiriant Amser / Amserlen Bws / Amserlen Trên.	Ymchwilio i'r calendr Gregoraidd a beth sy'n digwydd efo blynyddoedd naid ble mae'r flwyddyn yn lluosrif 100.
Defnyddio drych i helpu.	(dd) Cymesuredd. [2 wers.] Ychwanegu llinellau cymesuredd i siapiau (Lefel 3). Cwblhau cymesuredd (Lefel 4).	Cwblhau siapiau ble mae mwy nag un llinell cymesuredd.
	(e) Cymesuredd Cylchdro; Trawsfudo. [3 gwers.] Adnabod trefn cymesuredd cylchdro siapiau (Lefel 4). Trawsfudo siapiau (Lefel 4). Adnabod a dadwneud trawsfudiad (Lefel 4).	Trawsfudo siapiau mwy cymhleth.

CWRICWLWM	ADNODDAU	CAMSYNIADAU	NODIADAU
Cyfrifo: 2.2; 3.4; 3.5. Mesur: 1.1; 2.1; 3.1. Siâp a gofod: 1.1; 2.1; 2.2; 3.1.	Pecyn Gwaith. Pecyn Tasgau Ychwanegol. Prawf (45 munud). Gwefan Times Tables Rock Stars. 15 Fideo YouTube. Tarsia Amser.	Cymysgu rhwng pentagon a hecsagon. 7^2 ddim yn golygu gwneud 7×2 Darllen cloc analog – cymysgu rhwng y bys oriau a'r bys munudau. A oes gan baralelogram gymesuredd? Cymesuredd fflagiau – lliw yn bwysig.	Deunyddiau Saesneg ar gael i'r dosbarth trochi.

ADDYSGU YMATEBOL	CYD-DESTUNAU LLEOL, CENEDLAETHOL A RHYNGWLADOL	CWESTIYNAU CYSYNIADOL	Y DARLUN EHangach
Gofyn i ddysgwyr lunio o leiaf 4 tudalen yn eu llyfr adolygu glas. Caniatáu'r defnydd o'r llyfrau adolygu yn y prawf diwedd uned. Llyfr adolygu enghreifftiol ar gael (trefnydd gwybodaeth). Taflen fyfyrion ar gael ar ddiwedd y pecyn.	Mae'r pecyn cyntaf wedi'u drefnu o amgylch lleoliadau penodol yn yr ysgol: y llyfrgell; y neuadd; y neuadd chwaraeon; y ffreutur. Mae sôn hefyd am yr Eisteddfod ysgol.	20 cwestiwn ar gael ar wefan Diagnostic Questions. Tud. 11: Enghreifftiau ac anenghreifftiau o bolygonau yn cael eu cyflwyno.	Cyflwynir sut i osod allan Diagram Venn yn gywir (defnydd helaeth mewn pynciau eraill). Tud. 27: Nodiant cerdd yn cael ei ddefnyddio.

DEALLTWRIAETH GYSYNIADOL	CYFATHREBU GAN DDEFNYDDIO SYMBOLAU	CYMHWYSEDD STRATEGOL	RHESYMU RHESYMEGOL	RHUGLDER
Tud. 7: Lluosrifau. Tud. 11: Polygonau. Tud. 27: Cymesuredd cylchdro. Tud. 28: Trawsfudo.	Tud. 6: Gwirio rhifau ISBN. Tud. 15: Nodiant rhifau sgwâr a chiwb. Tud. 19: Y cloc 12 awr a'r cloc 24 awr.	Tud. 8: Adnabod lluosrifau. Tud. 20: Adnabod sawl diwrnod sydd mewn mis. Tud. 22: Adnabod blynyddoedd naid.	Tud. 7: Llenwi diagram Venn. Tud. 16: Ymchwiliad y rhif euraid.	Tud. 10: Adalw enwau polygonau cyffredin. Tud. 14: Adnabod odrifau ac eilrifau. Tud. 18: Unedau amser.

LLYTHRENNEDD	CYMHWYSEDD DIGIDOL
Tud. 12: Cyfle i ynganu enwau polygonau efo mwy na 12 ochr, e.e. "Triacontakaienneagon". Llinyn "gwrando", elfen "datblygu geirfa", cam cynnydd 4: "Rwyf wedi cael profiad o ystod o eirfa sy'n benodol i'r maes dysgu a phrofiad/disgyblaeth a geirfa academaidd gyffredinol, ac yn gallu ei defnyddio wrth i mi gyfathrebu".	Defnyddio'r gwefannau Diagnostic Questions, Times Tables Rock Stars a YouTube. Llinyn "Cynhyrchu", elfen "Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digidol", cam cynnydd 4: "Rwy'n gallu chwilio amrywiaeth o ffynonellau gan ddefnyddio technegau chwilio perthnasol a mwy cymhleth".



CYNHALIOL Anghenion Dysgu Ychwanegol	CRAIDD	YMESTYNNOL Mwyaf Galluog a Thalentog
	(a) Mathau o onglau. [2 wers.] Troadau clocwedd a gwrthglocwedd (Lefel 2). Mathau o onglau – lem; aflem; atblyg; ... (Lefel 5). Enwi onglau (Lefel 5).	
Onglau llym ac aflwm yn unig.	(b) Mesur onglau. [4 gwers.] Amcangyfrif maint onglau, a'u mesur efo onglydd (Lefel 5). Taflen waith mesur onglau.	Gallu mesur maint onglau atblyg yn hyderus gan ddefnyddio'r dull orau o fesur yn dibynnu ar faint yr ongl.
Onglau llym ac aflwm yn unig. Mesur efo onglydd yn unig.	(c) Llunio onglau. [3 gwers.] Llunio onglau efo onglydd (Lefel 5).	Gallu llunio onglau atblyg yn hyderus.
Caniatáu defnyddio cyfrifianellau. Cwestiynau syml yn unig (1 cam i ffeindio'r ateb).	(ch) Cyfrifo onglau. [4 gwers.] Onglau o gwmpas pwynt; onglau ar linell syth; onglau croesfertig (Lefel 6). Hen gwestiynau arholiad. Pos y platiau. Onglau ar fwrdd snwcer.	Cyfrifo'r ongl i sgorio cic o'r smotyn mewn gêm bêl-droed – lluniad wrth raddfa.
	(d) Onglau mewn triongl. [6 gwers.] Profi bod swm onglau triongl yn 180°. Mathau arbennig o driongl. Ymchwiliad papur dotiau 3x3. Ongl allanol triongl. Llunio trionglau efo pren mesur, onglydd a chwmpas. (Lefel 6.)	Defnyddio meddalwedd LOGO i lunio trionglau gwahanol – ac arbrosi efo siapiau gwahanol.

CWRICWLWM	ADNODDAU	CAMSYNIADAU	NODIADAU
Ongl: 2.1; 3.1; 4.1.	Pecyn Gwaith. Pecyn Tasgau Ychwanegol. Prawf (45 munud). 13 Fideo YouTube.	Cymysgu rhwng 2 raddfa'r onglydd. Camsyniadau maint ongl. Ydi'r ateb yn synhwyrol, e.e. os yw'r llun yn dangos ongl lem ni all yr ateb fod yn 245°.	Pecyn gwaith a phrawf Saesneg ar gael i'r dysgwyr Trochi.

ADDYSGU YMATEBOL	CYD-DESTUNAU LLEOL, CENEDLAETHOL A RHYNGWLADOL	CWESTIYNAU CYSYNIADOL	Y DARLUN EHangach
Gofyn i ddysgwyr lunio o leiaf 4 tudalen yn eu llyfr adolygu glas. Llyfr adolygu enghreifftiol ar gael (trefnydd gwybodaeth). Taflen fyfyrion ar gael ar ddiwedd y pecyn.	Tud. 5: Defnyddio 'to bach' i enwi ongl: trafod pam defnyddio'r symbol penodol yma. Tud. 25: Defnyddio meddalwedd Cymraeg i gwblhau'r ymchwiliad.	20 cwestiwn ar gael ar wefan Diagnostic Questions. Tud. 3: Ystyried pa ongl yw'r mwyaf allan o bob pâr o onglau.	Tud. 25: Cyflwyno codio syml gan ddefnyddio'r meddalwedd LOGO. Potensial ar gyfer llunio dolenni sy'n ailadrodd a diffinio gweithdrednau ("procedures").

DEALLTWRIAETH GYSYNIADOL	CYFATHREBU GAN DDEFNYDDIO SYMBOLAU	CYMHWYSEDD STRATEGOL	RHESYMU RHESYMEGOL	RHUGLDER
Tud. 3: Ongl. Tud. 20: Cyfanswm onglau triongl.	Tud. 6: Uned ongl. Tud. 23: Ymchwiliad papur dotiau.	Tud. 9: Mesur onglau atblyg. Tud. 15: Cyfrifo onglau.	Tud. 19: Onglau ag algebra. Tud. 22: Cyfrifo onglau mewn triongl isosgeles.	Tud. 3: Troi yn y dosbarth. Tud. 7: Mesur onglau. Tud. 22: Adnabod mathau o drionglau.

LLYTHRENNEDD	CYMHWYSEDD DIGIDOL
Tud. 4: Terminoleg onglau / Tud. 22: Mathau o drionglau. Llinyn "ysgrifennu", elfen "geirfa, sillafu, gramadeg", cam cynnydd 4: "Rwyf wedi cael profiad o ystod o eirfa sy'n benodol i faes dysgu a phrofiad/disgyblaeth a geirfa academaidd gyffredinol, ac yn gallu ei defnyddio wrth i mi gyfathrebu".	Tud. 25: Gweithgaredd gwefan LOGO. Llinyn "Data a meddwl cyfrifiadurol", elfen "Datrys problemau a modelu", cam cynnydd 4: "Rwy'n gallu creu model syml neu algorithm annibynnol" a "Rwy'n gallu nodi patrymau sy'n ailadrodd mewn algorithm a defnyddio iteriadau i wneud yr algorithm yn fwy effeithlon".



CYNHALIOL Anghenion Dysgu Ychwanegol	CRAIDD	YMESTYNNOL Mwyaf Galluog a Thalentog
	(a) Y cylch trin data dilyniannol. Egluro pwrpas y cylch a pha rannau (mewn melyn) fydd yn y pecyn yma.	
Setiau bach o ddata'n unig.	(b) Y cymedr. [4 gwrs.] Cyfrifo'r cymedr ar gyfer data meintiol. Cyfrifo'r cymedr o dabl. Cymharu dau ddosraniad. (Lefel 5.)	Dim angen arweiniad i gyfrifo cymedr o dabl. Cymharu dosraniadau'n hyderus.
Setiau bach o ddata'n unig.	(c) Yr amrediad. [2 wers.] Cyfrifo'r amrediad ar gyfer data meintiol. Cymharu dau ddosraniad. (Lefel 5.)	
	(ch) Siartiau bar. [7 gwrs.] Mathau o ddata (Lefel 4). Llunio siart bar ar gyfer data ansoddol neu ddata meintiol arwahanol heb ei grwpio (Lefel 3). Llunio diagram amllder ar gyfer data meintiol arwahanol wedi'i grwpio neu ddata meintiol di-dor (Lefel 6). Defnyddio tablau amllder i grwpio data di-dor (Lefel 6). Dehongli siartiau (Lefelau 3-6).	Dewis graddfa addas heb arweiniad. Dim camgymeriadau wrth grwpio data; gwirio'r gwaith wrth wneud hyn.
Osgoi'r testun yma – mwy o amser i gwblhau rhannau (b), (c), (ch).	(d) Cymedr data wedi'i grwpio. [5 gwrs.] Amcangyfrif y cymedr ar gyfer data meintiol arwahanol wedi'i grwpio. Amcangyfrif y cymedr ar gyfer data meintiol di-dor wedi'i grwpio. Amcangyfrif yr amrediad ar gyfer data meintiol wedi'i grwpio. (Lefel 7.)	
Pecyn Gwaith: Sylfaenol / Uwch . Prawf (45 munud): Sylfaenol / Uwch . Fideos YouTube: Sylfaenol / Uwch . Pecyn Tasgau Ychwanegol . Hen Gwestiynau Arholiad ar Drigonometreg ; Helaethiad ; Siapiau Cyfansawdd ; Hyd Arc ac Arwynebedd Sector .	Rhannu neu luosi wrth ddatrys problemau trigonometreg. Helaethu ar bapur dotiau: cyfri'r dotiau yn lle ystyried y pellter rhwng y dotiau. Defnyddio canol helaethiad. Ychwanegu hydroedd coll i siâp cyfansawdd.	Dylid sicrhau bod arwynebedd siapiau unigol yn gadarn cyn addysgu siapiau cyfansawdd.

ADDYSGU YMATEBOL	CYD-DESTUNAU LLEOL, CENEDLAETHOL A RHYNGWLADOL	CWESTIYNAU CYSYNIADOL	Y DARLUN EHangach
Gofyn i ddysgwyr lunio o leiaf 4 tudalen yn eu llyfr adolygu piws. Llyfr adolygu enghreifftiol ar gael (trefnydd gwybodaeth). Taflen fyfyrion ar gael ar ddiwedd y pecyn.	Darganfod hydoedd ac onglau mewn cyd-destun wrth weithio efo trigonometreg.	Hyd at 16 cwestiwn ar gael ar wefan Diagnostic Questions. Dewis sut i gyfrifo holl onglau ac ochrau triongl.	Gweld y cyswllt efo gwaith blaenorol (arwynebedd a pherimedr siapiau sylfaenol).

DEALLTWRIAETH GYSYNIADOL	CYFATHREBU GAN DDEFNYDDIO SYMBOLAU	CYMHWYSEDD STRATEGOL	RHESYMU RHESYMEGOL	RHUGLDER
Deall ystyr cymarebau trigonometreg. Deall y cysylltiad rhwng hyd arc a chylchedd cylch, neu rhwng arwynebedd sector ag arwynebedd cylch.	Ffurio a datrys hafaliadau trigonometreg. Defnyddio'r unedau cywir wrth weithio efo siapiau cyfansawdd.	Hollti siapiau cyfansawdd i mewn i siapiau mwy sylfaenol er mwyn cyfrifo'r arwynebedd.	Darganfod hydoedd ac onglau gan ddefnyddio trigonometreg.	Cyfrifo ochrau ac onglau gan ddefnyddio trigonometreg. Healethu siapiau gan ddefnyddio ffactorau graddfa amrywiol.

LLYTHRENNEDD	CYMHWYSEDD DIGIDOL
Ateb cwestiynau trigonometreg mewn cyd-destun: Llinyn "Darllen", Efen "Strategaethau darllen", Cam Cynnydd 3: "Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau er mwyn dod o hyd i wybodaeth, e.e. cip ddarllen (sgimio) am yr hanfodion, llithr ddarllen (sganio) am fanylion."	Defnyddio cof y cyfrifiannell mewn cwestiynau trigonometreg: Llinyn "Cynhyrchu", Efen "Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digidol", Cam Cynnydd 3: "Rwy'n gallu storio canlyniadau chwilio i'w defnyddio yn y dyfodol, e.e. creu nod tudalen, ychwanegu at ffefrynnau."



SYLFAENOL	UWCH
(a) Cyfrifo.	Gwersi: 4-6 Sylfaenol / 0 Uwch.
1.5.3 adio, tynnu, lluosu a rhannu degolion, ffracsiynau a rhifau negatif.	
(b) Degolion Cylchol.	Gwersi: 4 Sylfaenol / 2 Uwch.
1.9.1 bod degolion cylchol yn ffracsiynau union, a bod rhai ffracsiynau union yn ddegolion cylchol.	1.9.2 trawsnewid degolion cylchol i ffurf ffracsiynol.
(c) Trawsnewid.	Gwersi: 3 Sylfaenol / 1 Uwch.
1.4.2 y cywerthoedd rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau.	1.9.2 trawsnewid degolion cylchol i ffurf ffracsiynol.
(ch) Newidiadau Cyfrannol Effeithiol.	Gwersi: 5 Sylfaenol / 0 Uwch.
1.4.8 cyfrifo newidiadau ffracsiynol a chanrannol (cynnydd a gostyngiad). 1.4.9 deall a defnyddio lluosyddion.	1.4.13 darganfod y maint gwreiddiol o wybod canlyniad newid cyfraneddol.
(d) Techneg Arholiad.	Gwersi: 6 Sylfaenol / 0 Uwch.
1.1.8 gwirio dulliau a datrysiadau gan ddefnyddio strategaethau priodol. 1.7.1 dehongli a defnyddio gwybodaeth fathemategol sydd wedi'i chyflwyno ar ffurf ysgrifenedig neu weledol.	1.8.4 cyflawni cyfrifiadau sy'n cynnwys cyfraddau lluosog.

ADNODDAU	CAMSYNIADAU	NODIADAU
Pecyn Gwaith: Sylfaenol / Uwch . Prawf (45 munud): Sylfaenol / Uwch . Prawf opsiynol Haen Uwch Hefo Cyfrifiannell (10 marc) hefyd ar gael. Fideos YouTube: Sylfaenol / Uwch . Pecyn Tasgau Ychwanegol . Hen Gwestiynau Arholiad ar Ddegolion Cylchol ; Trawsnewid ; Newidiadau Canrannau Effiethiol ; Asesu Cyfathrebu Ysgrifenedig . Cwestiynau Ychwanegol ar Drefnu Parti Megan ; Cyfrifiadau ; Newid Ffracsiwn i Ddegolyn ; Newid Degolyn Cylchol i Ffracsiwn .	Ffrâm rannu: rhoi'r rhifau yn y llefydd anghywir (tu fewn/tu allan). Cymysgu rhwng lluosu efo 100 / rhannu efo 100 wrth drawsnewid. Delio efo gwybodaeth mewn cwestiynau ACY: gwylid allan am gof gweithiol yn cael ei orlwytho.	Dylid trin pennod (a) fel pennod meistroli, h.y. dylai'r dosbarth cyfan allu ateb y cwestiynau ar dudalennau 3–4 o'r pecyn gwaith cyn symud ymlaen.

ADDYSGU YMATEBOL	CYD-DESTUNAU LLEOL, CENEDLAETHOL A RHYNGWLADOL	CWESTIYNAU CYSYNIADOL	Y DARLUN EHangach
Gofyn i ddysgwyr lunio o leiaf 4 tudalen yn eu llyfr adolygu piws. Llyfr adolygu enghreifftiol ar gael (trefnydd gwybodaeth). Taflen fyfyrto ar gael ar ddiwedd y pecyn.	Darganfod cyflogau pel-droedwyr yn Ymarfer 3. Gweithio efo amserlen trê Caergybi i Gaerdydd yn Ymarferion 4 a 5. Pennod olaf yn cynnwys cwestiynau mewn cyd-destunau ymarferol.	20 cwestiwn ar gael ar wefan Diagnostic Questions. Dysgu sut i weithio efo ffracsiynau, canrannau a degolion.	Cyflwyno techneg i dderbyn y marciau ychwanegol am asesu cyfathrebu ysgrifenedig.

DEALLTWRIAETH GYSYNIADOL	CYFATHREBU GAN DDEFNYDDIO SYMBOLAU	CYMHWYSEDD STRATEGOL	RHESYMU RHESYMEGOL	RHUGLDER
Penderfynu os yw ffracsiwn yn rhoi degolyn terfynus neu gylchol. Newid degolyn cylchol i fod y n ffracsiwn.	Defnyddio cyfrifiannell yn effeithlon yn yr ymarfer “stori gyfrifiannell”.	Techneg “Swm, Eglurhad” er mwyn ateb cwestiynau asesu cyfathrebu ysgrifenedig.	Nifer o sialensau yn y pecyn ble mae’n rhaid rhesymu’r ateb i’r cwestiwn. Defnyddio cynllun marcio i ateb gwaith dysgwyr eraill.	Ymarfer technegau cyfrifo sylfaenol. Newid rhwng ffracsiynau, canrannau a degolion.

LLYTHRENNEDD	CYMHWYSEDD DIGIDOL
Ateb cwestiynau asesu cyfathrebu ysgrifenedig: Llinyn “Darllen”, Elfen “Strategaethau darllen”, Cam Cynnydd 4: “Rwy’n gallu darllen a chanolbwyntio ar destunau a argraffwyd a thestunau digidol sy’n newydd i mi a diweddarau, ehangu a dyfnhau fy nealltwriaeth o wybodaeth, syniadau a materion.”	Dim yn berthnasol.



Arholiad

CYNHALIOL Anghenion Dysgu Ychwanegol	CRAIDD	YMESTYNNOL Mwyaf Galluog a Thalentog
D.Y.B.	(a) Arholiad Blwyddyn 10. [2 wers.] Arholiad ffurfiol ar destunau'r flwyddyn.	D.Y.B.

CWRICWLWM	ADNODDAU	CAMSUNIADAU	NODIADAU
	Uned 1: Haen Sylfaenol Uned 1: Haen Uwch		Defnyddir canlyniadau'r arholiad i ail-setio'r dysgwyr.



SYLFAENOL	UWCH
(a) Ffactorio Syml.	Gwersi: 3 Sylfaenol / 0 Uwch.
2.1.13 ffactorio mynegiadau llinol neu gwadratig sydd ag o leiaf un ffactor cyffredin.	
(b) Ffactorio Mynegiadau Cwadratig.	Gwersi: 0 Sylfaenol / 6 Uwch.
	2.1.14 ffactorio mynegiadau mwy cymhleth drwy echdynnu ffactorau cyffredin. 2.1.15 ffactorio mynegiadau cwadratig ar y ffurf $x^2 + ax + b$ a $ax^2 + bx + c$, gan gynnwys gwahaniaeth dau sgwâr. 2.2.5 llunio, trin a datrys hafaliadau cwadratig ar y ffurf drwy ddefnyddio ffactorio $x^2 + bx + c = 0$ neu $ax^2 + bx + c = 0$.
(c) Hafaliadau Cydamserol.	Gwersi: 0 Sylfaenol / 6 Uwch.
	2.2.6 llunio, trin a datrys dau hafaliad cydamserol llinol gyda chyfernodau rhif cyfan drwy ddulliau algebraidd.
(ch) Newid Testun.	Gwersi: 3 Sylfaenol / 0 Uwch.
2.1.16 newid testun fformiwla pan fo'r testun yn ymddangos mewn un term.	
(d) Mynegiad, Hafaliad, Fformiwla, Unfathiant.	Gwersi: 1 Sylfaenol / 1 Uwch.
2.1.3 adnabod diffiniadau'r termau hafaliad, mynegiad a fformiwla a gallu gwahaniaethu rhyngddynt.	2.1.4 adnabod diffiniad y term unfathiant a gallu gwahaniaethu rhwng unfathiannau, hafaliadau, mynegiadau a fformiwlaù.

ADNODDAU	CAMSYNIADAU	NODIADAU
Pecyn Gwaith: Sylfaenol / Uwch . Prawf (45 munud): Sylfaenol / Uwch . Fideos YouTube: Sylfaenol / Uwch . Pecyn Tasgau Ychwanegol . Hen Gwestiynau Arholiad ar Ffactorio ; Ffactorio Mynegiadau Cwadratig ; Hafaliadau Cydamserol ; Newid Testun ; Mynegiad, Hafaliad, Fformiwla, Unfathiant . Cwestiynau Ychwanegol ar Newid Testun .	Peidio ffactorio mynegiadau'n llawn gan ddefnyddio'r ffactor cyffredin mwyaf. Cymysgu rhwng pa rifau i adio/lluosi wrth ffactorio mynegiadau cwadratig. Gofal efo gwybodaeth flaenorol o rifau negatif wrth ddatrys hafaliadau cydamserol.	Gellid dewis un dull o ddatrys hafaliadau cydamserol, neu ddangos y ddau ddull.

ADDYSGU YMATEBOL	CYD-DESTUNAU LLEOL, CENEDLAETHOL A RHYNGWLADOL	CWESTIYNAU CYSYNIADOL	Y DARLUN EHangach
Gofyn i ddysgwyr lunio o leiaf 4 tudalen yn eu llyfr adolygu piws. Llyfr adolygu enghreifftiol ar gael (trefnydd gwybodaeth). Taflen fyfyrion ar gael ar ddiwedd y pecyn.	Tudalen 13: Modelu cebl Pont y Borth gan ddefnyddio hafaliad cwadratig.	20 cwestiwn ar gael ar wefan Diagnostic Questions.	Ystyried y sgiliau yn y pecyn yma fel hyfforddiant ar gyfer delio â sefyllfaoedd cymhleth mewn bywyd bob dydd.

DEALLTWRIAETH GYSYNIADOL	CYFATHREBU GAN DDEFNYDDIO SYMBOLAU	CYMHWYSEDD STRATEGOL	RHESYMU RHESYMEGOL	RHUGLDER
Deall mai ffactorio yw gwrthdro ehangu.	Gweithio efo termau; cyfernodau; newidynnau; mynegiadau; hafaliadau; fformiwlâu ac unfathiannau.	Ystyried ffyrdd gwahanol o ddarganfod pâr o rifau sy'n adio ac yn lluosu i roi rhifau penodol.	Newid brawddegau i mewn i fynegiadau algebraidd.	Ymarfer amrywiol dechnegau gan ddefnyddio sgiliau algebraidd.

LLYTHRENNEDD	CYMHWYSEDD DIGIDOL
Dim yn berthnasol.	Dim yn berthnasol.



SYLFAENOL	UWCH
(a) Solidau.	Gwersi: 5 Sylfaenol / 2 Uwch.
3.6.3 Siapiau 3 dimensiwn: • Arwynebedd arwyneb, arwynebedd trawstoriadol, cyfaint a chynhwysedd ciwb, ciwboid, prism, a solid cyfansawdd • Arwynebedd trawstoriadol, cyfaint a chynhwysedd silindr.	3.6.3 Siapiau 3 dimensiwn: • Arwynebedd arwyneb silindr • Arwynebedd arwyneb, cyfaint a chynhwysedd sffêr, côn, pyramid a solid cyfansawdd.
(b) Solidau Cyfansawdd.	Gwersi: 2 Sylfaenol / 1 Uwch.
3.6.3 Siapiau 3 dimensiwn: • Arwynebedd arwyneb, arwynebedd trawstoriadol, cyfaint a chynhwysedd ciwb, ciwboid, prism, a solid cyfansawdd.	
(c) Siapiau Cyflun.	Gwersi: 2 Sylfaenol / 3 Uwch.
3.9.1 adnabod siapiau cyfath a chyflun 3.9.2 defnyddio'r wybodaeth, ar gyfer dau siâp 2 neu 3 dimensiwn cyflun, bod un yn helaethiad o'r llall.	3.9.3 defnyddio'r wybodaeth, mewn siapiau cyflun, bod dimensiynau cyfatebol o'r un gymhareb. 3.9.4 defnyddio'r wybodaeth, mewn siapiau cyflun [a chyfath], bod onglau cyfatebol yn hafal. 3.9.5 defnyddio'r cysylltiadau rhwng cymarebau hyd, arwynebedd, cyfaint a chynhwysedd siapiau cyflun.
(ch) Theorem Pythagoras 3-D.	Gwersi: 0 Sylfaenol / 2 Uwch.
	3.7.2 defnyddio theorem Pythagoras mewn 3 dimensiwn, gan gynnwys problemau cildro.

ADNODDAU	CAMSYNIADAU	NODIADAU
Pecyn Gwaith: Sylfaenol / Uwch . Prawf (45 munud): Sylfaenol / Uwch . Fideos YouTube: Sylfaenol / Uwch . Pecyn Tasgau Ychwanegol . Hen Gwestiynau Arholiad ar Cyfaint ; Siapiau Cyflun ; a Theorem Pythagoras 3-D . Cwestiynau Ychwanegol ar Cyfaint .	Cymysgu rhwng arwynebedd arwyneb a chyfaint. Defnyddio diamedr yn lle radiws (ac fel arall) wrth gyfrifo cyfaint neu arwynebedd arwyneb silindr. Cymysgu rhwng uchder a hyd goleddol côn. Adio yn lle lluosu wrth weithio efo siapiau cyflun. Ffeindio'r groeslin gywir mewn siap 3-D.	Bydd y pecyn yma'n cymryd llawer mwy o amser wrth addysgu ar yr haen uwch. Mae angen gosod y ddau gwis diagnostic questions i'r myfyrwyr haen uwch.

ADDYSGU YMATEBOL	CYD-DESTUNAU LLEOL, CENEDLAETHOL A RHYNGWLADOL	CWESTIYNAU CYSYNIADOL	Y DARLUN EHANGACH
Gofyn i ddysgwyr lunio o leiaf 4 tudalen yn eu llyfr adolygu piws. Llyfr adolygu enghreifftiol ar gael (trefnydd gwybodaeth). Taflen fyfyrion ar gael ar ddiwedd y pecyn.	Ystyried cost paentio wal; deunyddiau i wneud deunydd pacio tiwb o Pringles; faint o ddŵr sy'n ffitio i mewn i bwl nofio.	20 cwestiwn ar gael ar wefan Diagnostic Questions.	Ystyried pa siapiau cyffredin sy'n ffrwstwmau (e.e. cwpan coffi, pot blodau).

DEALLTWRIAETH GYSYNIADOL	CYFATHREBU GAN DDEFNYDDIO SYMBOLAU	CYMHWYSEDD STRATEGOL	RHESYMU RHESYMEGOL	RHUGLDER
Ystyried pa siâp yw bob un o wynebau silindr caeedig. Ystyried sut i gyfrifo cyfaint ffrwstw. Ystyried y cysylltiad rhwng ffactorau graddfa hyd, arwynebedd a chyfaint.	Ystyried yr unedau ar gyfer arwynebedd a chyfaint. Gweithio efo syrddiau neu yn nhermau π .	Ystyried sut i gyfrifo arwynebedd arwyneb silindr. Penderfynu sut i gyfrifo cyfaint solid cyfansawdd.	Ystyried y deunyddiau pacio mewn tiwb o Pringles. Orlhain y fformiwlâu ar gyfer cyfaint pyramid neu arwynebedd arwyneb crwm côn.	Cyfrifo cyfaint neu arwynebedd arwyneb amrywiaeth o solidau gwahanol. Cyfrifo hydroedd mewn siapiau cyflun.

LLYTHRENNEDD	CYMHWYSEDD DIGIDOL
Geirfa solidau, e.e. apig, fertig, tetrahedron: Llinyn "Ysgrifennu", Elfen "Geirfa, sillafu, gramadeg", Cam Cynnydd 5: "Rwy'n gallu defnyddio ystod o eirfa sy'n benodol i ddisgyblaeth a geirfa academaidd gyffredinol yn fanwl gywir."	Defnyddio'r wefan Polypad i weithio efo rhwydi solidau.



SYLFAENOL	UWCH
(a) Talgrynnu: Ffigurau Ystyrllon.	Gwersi: 2 Sylfaenol / 0 Uwch.
1.1.5 talgrynnu rhifau i nifer penodol o ffigurau ystyrllon.	
(b) Amcangyfrif.	Gwersi: 1 Sylfaenol / 0 Uwch.
1.1.9 amcangyfrif datrysiadau i gyfrifiadau rhifiadol drwy frasamcanu'r rhifau yn y cyfrifiadau.	
(c) Arffiniau Uchaf ac Isaf.	Gwersi: 2 Sylfaenol / 4 Uwch.
1.6.2 gwybod mai ffigur bras yw mesuriad ac y gall fod cyfeiliornad o hanner uned mewn mesuriad sydd wedi'i fynegi i uned benodol.	1.6.3 pennu arffiniau isaf ac uchaf rhifau sydd wedi'u mynegi i lefel benodol o fanwl gywirdeb. 1.6.4 cyfrifo arffiniau isaf ac uchaf wrth adio, tynnu, lluosu a rhannu rhifau sydd wedi'u mynegi i lefel benodol o fanwl gywirdeb.
(ch) Manwl Gywirdeb Priodol.	Gwersi: 1 Sylfaenol / 1 Uwch.
1.6.1 talgrynnu ateb i lefel resymol o fanwl gywirdeb ac ystyried y cyd-destun.	
(d) Mesurau Cyfansawdd.	Gwersi: 4 Sylfaenol / 0 Uwch.
3.5.8 galw i gof a defnyddio mesurau cyfansawdd ar gyfer cyflymder a defnydd o danwydd. Mae'r unedau'n cynnwys: m/s, km/h, mya a myg. 3.5.9 galw i gof a defnyddio mesurau cyfansawdd eraill, gan gynnwys dwysedd, dwysedd poblogaeth a chyfraddau llif. Mae'r unedau'n cynnwys kg/m^3 , g/cm^3 , poblogaeth y km^2 , m^3 yr awr, litrau yr eiliad.	

ADNODDAU	CAMSYNIADAU	NODIADAU
Pecyn Gwaith: Sylfaenol / Uwch . Prawf (45 munud): Sylfaenol / Uwch . Fideos YouTube: Sylfaenol / Uwch . Pecyn Tasgau Ychwanegol . Hen Gwestiynau Arholiad ar Arffiniau Uchaf ac Isaf , Mesurau Cyfansawdd .	Cyfuno arffiniau mewn ffyrdd anghywir. Defnyddio'r unedau anghywir mewn fformiwla mesur cyfansawdd. Peidio nodi'r unedau.	

ADDYSGU YMATEBOL	CYD-DESTUNAU LLEOL, CENEDLAETHOL A RHYNGWLADOL	CWESTIYNAU CYSYNIADOL	Y DARLUN EHangach
Gofyn i ddysgwyr lunio o leiaf 4 tudalen yn eu llyfr adolygu piws. Llyfr adolygu enghreifftiol ar gael (trefnydd gwybodaeth). Taflen fyfyrion ar gael ar ddiwedd y pecyn.	Ystyried dwysedd poblogaeth rhannau gwahanol o'r byd.	35 cwestiwn ar gael ar wefan Diagnostic Questions.	Defnyddio amcangyfrif i wirio os yw ateb yn rhesymol ai peidio.

DEALLTWRIAETH GYSYNIADOL	CYFATHREBU GAN DDEFNYDDIO SYMBOLAU	CYMHWYSEDD STRATEGOL	RHESYMU RHESYMEGOL	RHUGLDER
Ystyried ystyr ffigur ystyrion. Amcangyfrif rhif i un ffigur ystyrion, oni bai y nodir yn wahanol. Deall ystyr mesurau cyfansawdd.	Y symbol ar gyfer amcangyfrif. Ysgrifennu rhif i fwy o ffigurau ystyrion nac sydd gan y rhif, e.e. 3 i 4 ffigur ystylon. Ystyr y symbol \pm . Unedau mesurau cyfansawdd.	Tudalen 14: Ystyried pa strategaeth i'w ddefnyddio i ateb cwestiynau amrywiol o becynnau blaenorol.	Defnyddio amcangyfrif neu arffiniau i resymu'r atebion i gwestiynau.	Talgrynnu rhifau i wahanol nifer o ffigurau ystyrion. Ystyried arffiniau mesuriad. Ysgrifennu atebion i fanwl gywirdeb priodol.

LLYTHRENNEDD	CYMHWYSEDD DIGIDOL
Dim yn berthnasol.	Dim yn berthnasol.



Cynllun Gwaith Bl. 11

Testun	Mathemateg	Hyd	Haenau	Rhif y Dudalen
01 Datblygu Algebra 3	(a) Yr Adran Fathemateg (b) Cyfrannedd Union a Gwrthdro. (c) Hafaliadau Cyfrannedd. (ch) Nfed Term Cwadratig. (d) Anhafaleddau. (dd) Rhanbarthau Graff.	4–6 wythnos	S, U	76
02 Mesur Siapiau 4	(a) Siapiau Cyfath. (b) Onglau Mewn Polygonau. (c) Theoremau'r Cylch. (ch) Trawsffurfiadau.	4 wythnos	S, U	78
03 Datblygu Tebygolrwydd	(a) Amllder Cymharol. (b) Digwyddiadau Cyfunol. (c) Diagramau Canghennog.	4 wythnos	S, U	80
04 Datblygu Algebra 4	(a) Cyn-Galcwlws. (b) Newid Testun Pellach. (c) Y Fformiwla Gwadratig. (ch) Ffracsiynau Algebraidd.	5–6 wythnos	U	82
05 Mesur Siapiau 5	(a) Trigonometreg 3–D. (b) Y Rheol Sin, Y Rheol Cosin. (c) Arwynebedd Triongl. (ch) Graffiau Trigonometrig.	4 wythnos	U	84
06 Diwedd Blwyddyn 11	(a) Cynnig a Gwella. (b) AER, APR.	3 wythnos	S, U	86



SYLFAENOL	UWCH
(a) Cyfrannedd Union a Gwrthdro.	Gwersi: 3 Sylfaenol / 3 Uwch.
1.1.7 penderfynu a ddylid talgrynnu i fyny neu i lawr, fel y bo'n briodol, mewn problem.	1.4.12 datrys problemau rhifiadol sy'n ymwneud â chyfrannedd union a chyfrannedd gwrthdro.
(b) Hafaliadau Cyfrannedd.	Gwersi: 0 Sylfaenol / 4 Uwch.
	2.2.10 llunio a defnyddio hafaliadau sy'n disgrifio cyfrannedd union a chyfrannedd gwrthdro.
(c) Nfed Term Cwadratig.	Gwersi: 1 Sylfaenol / 3 Uwch.
2.3.3 cynhyrchu dilyniannau llinol ac aflinol o ystyried rheol yr <i>nfed</i> term.	2.3.5 darganfod yr <i>nfed</i> term mewn dilyniant, sydd wedi'i roi yn rhifiadol neu'n ddiagramatig, lle mae'r rheol yn gwadratig.
(ch) Anhafaleddau.	Gwersi: 3 Sylfaenol / 1 Uwch.
2.2.3 llunio, trin a datrys anhafaleddau llinol syml gyda chyfernodau rhif cyfan a ffracsiynol.	2.2.4 llunio, trin a datrys anhafaleddau llinol lle mae'r newidyn yn ymddangos ar ddwy ochr yr anhafaledd neu lle mae dau anhafaledd ar wahân yn cael eu hysgrifennu fel anhafaledd dwbl.
(d) Rhanbarthau Graff.	Gwersi: 0 Sylfaenol / 4 Uwch.
	2.4.5 defnyddio graffiau llinell syth i leoli rhanbarthau a roddir gan anhafaleddau. 2.4.11 lluniadu a dehongli graffiau pan roddir y ymhlwg yn nhermau x.

ADNODDAU	CAMSYNIADAU	NODIADAU
Pecyn Gwaith: Sylfaenol / Uwch . Prawf (45 munud): Sylfaenol / Uwch . Fideos YouTube: Sylfaenol / Uwch . Pecyn Tasgau Ychwanegol . Hen Gwestiynau Arholiad ar Cysylltiadau Cyfrannedd ; Hafaliadau Cyfrannedd ; Nfed Term Cwadratig ; Anhafaleddau ; Rhanbarthau Graff .	Cymysgu rhwng cyfrannedd union a gwrthdro. Mynnu ysgrifennu hafalnod yn lle symbol yr anhafaledd. Gwybod pryd i newid y symbol mewn anhafaledd.	

ADDYSGU YMATEBOL	CYD-DESTUNAU LLEOL, CENEDLAETHOL A RHYNGWLADOL	CWESTIYNAU CYSYNIADOL	Y DARLUN EHangach
Gofyn i ddysgwyr lunio o leiaf 4 tudalen yn eu llyfr adolygu melyn. Llyfr adolygu enghreifftiol ar gael (trefnydd gwybodaeth). Taflen fyfyrrio ar gael ar ddiwedd y pecyn.	Cwestiynau cyfrannedd union a gwrthdro mewn cyd-destunau gwahanol, e.e. arian tramor.	20 cwestiwn ar gael ar wefan Diagnostic Questions. Taflen waith Cysylltiadau Cyfrannedd ar gael i gysylltu'r gwaith cyfrannedd efo testunau blaenorol.	Gwerthfawrogi'r cysylltiad rhwng datrys anhafaledd a datrys hafaliad. Dilyn proses gymhleth wrth ddarganfod nfed term dilyniant cwadratig.

DEALLTWRIAETH GYSYNIADOL	CYFATHREBU GAN DDEFNYDDIO SYMBOLAU	CYMHWYSEDD STRATEGOL	RHESYMU RHESYMEGOL	RHUGLDER
Adnabod cyfrannedd union a gwrthdro. Adnabod y gwahaniaeth rhwng dilyniannau llinol a chwadratig. Deall pam bod rhaid newid y symbol mewn anhafaledd.	Cyflwyno'r symbol i gynrychioli cyfrannedd a'r symbolau i weithio efo anhafaleddau. Pryd i ddefnyddio llinell solet a phryd i ddefnyddio llinell doredig wrth blotio rhanbarthau.	Delio efo mwy nag un cyfrannedd. Darganfod nfed term dilyniant llinol neu gwadratig (siart llif). Dewis dull i blotio hafaliad llinol.	Dewis lluosyddion i newid un rhif i rif arall. Darganfod hafaliadau cyfrannedd trwy gynnig a gwella.	Gweithio efo hafaliadau cyfrannedd. Defnyddio llinell rif i arddangos anhafaledd. Datrys hafaliadau (adolygu gwaith blaenorol).

LLYTHRENNEDD	CYMHWYSEDD DIGIDOL
Penderfynu os yw sefyllfa yn cynrychioli cyfrannedd union neu gyfrannedd gwrthdro: Llinyn "Darllen", Efen "Deall, ymateb a dadansoddi", Cam Cynnydd 4: "Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am sut mae gwahanol destunau wedi'u strwythuro, eu trefnu a'u cysylltu er mwyn cefnogi fy nealltwriaeth o bwnc".	Cyfle i weithio efo gwefan Desmos wrth blotio llinellau a rhanbarthau.



SYLFAENOL	UWCH
(a) Siapiau Cyfath.	Gwersi: 1 Sylfaenol / 2 Uwch.
3.9.1 adnabod siapiau cyfath a chyflun.	3.9.6 deall a defnyddio'r amodau canlynol i brofi cyfathiant trionglau gan ddefnyddio dadleuon ffurfiol: • ochr-ochr-ochr (SSS) • ochr-ongl-ochr (SAS) • ongl-ongl-ochr (AAS) • ongl sgwâr-hypotenws-ochr (RHS).
(b) Onglau Mewn Polygonau.	Gwersi: 4 Sylfaenol / 0 Uwch.
3.4.3 Polygonau: • Polygonau rheolaidd ac afreolaidd • Swm onglau allanol polygon • Swm onglau mewnol ac onglau allanol polygon • Swm onglau mewnol polygon.	
(c) Theoremau'r Cylch.	Gwersi: 0 Sylfaenol / 6 Uwch.
	3.4.4 Theoremau'r cylch: • Mae'r tangiad ar unrhyw bwynt ar gylch yn berpendicwlar i'r radiws ar y pwynt hwnnw • Mae'r ongl a gynhelir gan arc yng nghanol cylch ddwywaith maint yr ongl a gynhelir ar unrhyw bwynt ar y cylchyn • Mae'r ongl a gynhelir ar y cylchyn gan hanner cylch yn ongl sgwâr • Mae onglau yn yr un segment yn hafal • Mae onglau cyferbyn pedrochr cylchol yn adio i 180° • Theorem y segment eiledol • Mae hyd tangiadau o bwynt allanol yn gyfartal. 3.4.5 llunio profion geometrig gan ddefnyddio ffeithiau a phriodweddau onglau, gan gynnwys theoremau'r cylch.
(ch) Trawsfurfiadau.	Gwersi: 1 Sylfaenol / 0 Uwch.
	3.8.6 disgrifio a lluniadu dau drawsffurfiad olynol.

ADNODDAU	CAMSYNIADAU	NODIADAU
Pecyn Gwaith: Sylfaenol / Uwch . Prawf (45 munud): Sylfaenol / Uwch . Fideos YouTube: Sylfaenol / Uwch . Pecyn Tasgau Ychwanegol . GeoGebra Theoremau Cylchoedd . Hen Gwestiynau Arholiad ar Siapiau Cyfath ; Onglau Mewn Polygonau ; Theoremau Cylchoedd ; Trawsfurfiadau .	Cymysgu rhwng siapiau cyflun a siapiau cyfath. Profion cyfathiant: rhaid i'r ongl fod rhwng yr ochrau ar gyfer SAS. Ystyr ongl allanol.	Nid yw'r wythfed theorem cylch yn ymddangos yn y fanyleb.

ADDYSGU YMATEBOL	CYD-DESTUNAU LLEOL, CENEDLAETHOL A RHYNGWLADOL	CWESTIYNAU CYSYNIADOL	Y DARLUN EHANGACH
Gofyn i ddysgwyr lunio o leiaf 4 tudalen yn eu llyfr adolygu melyn. Llyfr adolygu enghreifftiol ar gael (trefnydd gwybodaeth). Taflen fyfyrion ar gael ar ddiwedd y pecyn.		18 cwestiwn ar gael ar wefan Diagnostic Questions.	

DEALLTWRIAETH GYSYNIADOL	CYFATHREBU GAN DDEFNYDDIO SYMBOLAU	CYMHWYSEDD STRATEGOL	RHESYMU RHESYMEGOL	RHUGLDER
Deall pam bod onglau allanol polygon yn adio i 360° . Deall y profion ar gyfer theoremau'r cylch.	Dim yn berthnasol	Dewis prawf priodol i brofi bod triongla'u'n gyfath.	Profi bod dau driongl yn gyfath. Cymhwyso'r theoremau cylch.	Adnabod siapiau cyfath. Adalw gwybodaeth flaenorol am drawsffurfiadau a'u gyfuno mewn cwestiynau ble mae mwy nag un trawsffurfiad.

LLYTHRENNEDD	CYMHWYSEDD DIGIDOL
Dim yn berthnasol.	Cyfle i weithio efo gwefan GeoGebra wrth weithio efo theoremau'r cylch.



SYLFAENOL	UWCH
(a) Amllder Cymharol.	Gwersi: 5 Sylfaenol / 0 Uwch.
4.3.7 amcangyfrif tebygolrwydd digwyddiad fel y gyfran o weithiau mae wedi digwydd – cysylltu â thystiolaeth arbrofol ac amllder cymharol. 4.3.8 llunio a dehongli cynrychioliad graffigol o amllder cymharol yn erbyn nifer y treialon a deall bod disgwyl sefydlogrwydd tymor hir amllder cymharol. 4.3.9 cymharu tebygolrwydd a gafodd ei amcangyfrif ar sail canlyniadau arbrofol, â thebygolrwydd damcaniaethol.	
(b) Digwyddiadau Cyfunol.	Gwersi: 4 Sylfaenol / 2 Uwch.
4.4.1 os yw A a B yn ddigwyddiadau cydanghynhwysol, y tebygolrwydd y bydd A neu B yn digwydd yw $P(A) + P(B)$. 4.4.2 os yw A a B yn ddigwyddiadau annibynnol, y tebygolrwydd y bydd A a B yn digwydd yw $P(A) \times P(B)$. 4.4.4 gwybod pryd mae angen adio tebygolrwyddau ar gyfer digwyddiadau cydanghynhwysol a lluosu tebygolrwyddau ar gyfer dau ddigwyddiad annibynnol.	4.4.5 adnabod pan fydd problemau'n cynnwys tri digwyddiad annibynnol, a gallu cyfrifo'r tebygolrwydd gofynnol.
(c) Diagramau Canghennog.	Gwersi: 3 Sylfaenol / 1 Uwch.
4.4.3 nodi holl ganlyniadau cyfuniad o arbrofion, gan gynnwys rhestri, diagramau gofod sampl, diagramau canghennog a diagramau Venn.	4.4.6 adnabod pan fydd problemau'n cynnwys dau neu dri digwyddiad dibynnol, a gallu cyfrifo'r tebygolrwydd gofynnol, gan gynnwys samplu heb ei roi'n ôl.

ADNODDAU	CAMSYNIADAU	NODIADAU
Pecyn Gwaith: Sylfaenol / Uwch . Prawf (45 munud): Sylfaenol / Uwch . Fideos YouTube: Sylfaenol / Uwch . Pecyn Tasgau Ychwanegol . Hen Gwestiynau Arholiad ar Amllder Cymharol ; Digwyddiadau Cyfunol a Diagramau Canghennog .	Dewis yr amllder cymharol mwyaf i gynrychioli'r tebygolrwydd. Cymysgu rhwng adio a lluosu tebygolrwyddau. Adio ffracsiynau'n anghywir.	

ADDYSGU YMATEBOL	CYD-DESTUNAU LLEOL, CENEDLAETHOL A RHYNGWLADOL	CWESTIYNAU CYSYNIADOL	Y DARLUN EHANGACH
Gofyn i ddysgwyr lunio o leiaf 4 tudalen yn eu llyfr adolygu melyn. Llyfr adolygu enghreifftiol ar gael (trefnydd gwybodaeth). Taflen fyfyrion ar gael ar ddiwedd y pecyn.	Tud. 16: Trafod os yw brawddeg gyntaf Ymarfer 13 yn synhwyrol.	20 cwestiwn ar gael ar wefan Diagnostic Questions.	Tud. 5: Arbrawf nodwydd Buffon i olrhain π .

DEALLTWRIAETH GYSYNIADOL	CYFATHREBU GAN DDEFNYDDIO SYMBOLAU	CYMHWYSEDD STRATEGOL	RHESYMU RHESYMEGOL	RHUGLDER
Tud. 4: Arbrawf i ddeall y syniad tu ôl i amder cymharol. Tud. 9: Annibynnol / dibynnol; cydanghynhwysol / ddim yn cydanghynhwysol. Tud. 19: Sut mae digwyddiadau dibynnol yn newid sut mae'r diagram canghennog yn cael ei ffurfio.	Tud. 8: Nodiant tebygolrwydd, gan gynnwys 'o wybod', 'uniad', 'croestoriad'.	Tud. 15: Sut i lenwi a defnyddio diagram canghennog.	Tud. 11: Gosod elfennau'n gywir mewn diagram Venn.	Tud. 3: Adolygu gwaith blaenorol ar debygolrwydd. Trwy'r pecyn: cyfle i ymarfer y technegau a gyflwynwyd.

LLYTHRENNEDD	CYMHWYSEDD DIGIDOL
Penderfynu os yw sefyllfa yn gydanghynhwysol ai peidio, neu'n annibynnol/dibynnol: Llinyn "Darllen", Elfen "Deall, ymateb a dadansoddi", Cam Cynnydd 4: "Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am sut mae gwahanol destunau wedi'u strwythuro, eu trefnu a'u cysylltu er mwyn cefnogi fy nealltwriaeth o bwnc".	Cyfle i weithio efo gwefan Mathigon er mwyn rhoio dis neu droelli troellwr.



SYLFAENOL	UWCH
(a) Cyn-Galcwlws.	Gwersi: 0 Sylfaenol / 6 Uwch. 2.5.3 llunio a defnyddio tangiadau i gromliniau i amcangyfrif cyfraddau newid ar gyfer ffwythiannau aflinol, a defnyddio mesurau cyfansawdd priodol i fynegi'r canlyniadau, gan gynnwys darganfod y felosedd mewn graffiau pellter-amser a chyflymiad mewn graffiau felosedd-amser. 2.5.4 dehongli ystyr yr arwynebedd o dan graff, gan gynnwys yr arwynebedd o dan graff felosedd-amser a graffiau mewn cyd-destunau ymarferol eraill. 2.5.5 defnyddio'r rheol trapesiwm i amcangyfrif yr arwynebedd o dan gromlin.
(b) Newid Testun Pellach.	Gwersi: 0 Sylfaenol / 3 Uwch. 2.1.17 newid testun fformiwla pan fo'r testun yn ymddangos mewn mwy nag un term.
(c) Y Fformiwla Gwadratig.	Gwersi: 0 Sylfaenol / 4 Uwch. 2.2.8 llunio, trin a datrys hafaliadau cwadratig ar y ffurf drwy ddefnyddio Fformiwla $x^2 + bx + c = 0$, neu $ax^2 + bx + c = 0$.
(ch) Ffracsiynau Algebraidd.	Gwersi: 0 Sylfaenol / 5 Uwch. 2.1.10 symleiddio ffracsiynau algebraidd mwy cymhleth, gan gynnwys adio a thynnu ffracsiynau gyda mynegiadau llinol fel enwaduron. 2.2.7 datrys hafaliadau sy'n cynnwys ffracsiynau ag enwaduron llinol yn arwain at hafaliadau cwadratig neu linol.

ADNODDAU	CAMSYNIADAU	NODIADAU
Pecyn Gwaith . Prawf (45 munud): Uwch . Fideos YouTube: Uwch . Pecyn Tasgau Ychwanegol . Hen Gwestiynau Arholiad ar Cyn-Galcwlws ; Newid Testun Pellach ; Y Fformiwla Gwadratig ; Ffracsiynau Algebraidd .		Mae'r pecyn yma'n addas ar gyfer yr haen uwch yn unig.

ADDYSGU YMATEBOL	CYD-DESTUNAU LLEOL, CENEDLAETHOL A RHYNGWLADOL	CWESTIYNAU CYSYNIADOL	Y DARLUN EHANGACH
Gofyn i ddysgwyr lunio o leiaf 4 tudalen yn eu llyfr adolygu melyn. Llyfr adolygu enghreifftiol ar gael (trefnydd gwybodaeth). Taflen fyfyrion ar gael ar ddiwedd y pecyn.	Tud. 4: Fideo siwrnai Sphero'n cael ei ddangos; cyswllt efo dadleoliad a chyflymder. Tud. 10: Cyswllt rhwng cynnydd cyflog a chyfanswm enillion dros gyrfa.	15 cwestiwn ar gael ar wefan Diagnostic Questions.	Tud. 3 ymlaen: Cysylltiad rhwng dadleoliad, cyflymder a chyflymiad (graddiant tangiad; arwynebedd o dan graff).

DEALLTWRIAETH GYSYNIADOL	CYFATHREBU GAN DDEFNYDDIO SYMBOLAU	CYMHWYSEDD STRATEGOL	RHESYMU RHESYMEGOL	RHUGLDER
Tud. 3: Tangiad ffwythiant aflinol.	Tud. 12: Gweithio efo sawl newidyn wrth newid testun fformiwla. Tud. 15: Y symbol \pm wrth weithio efo'r fformiwla gwadratig.	Tud. 3: Llunio triongl ongl sgwâr i ddarganfod graddiant tangiad. Tud. 8: Hollti arwynebedd i mewn i drapesiymau er mwyn defnyddio Rheol y Trapesiwm. Tud. 17: Dau ddull er mwyn trin ffracsiynau algebraidd.	Tud. 15: Gwrthod gwreiddyn negatif wrth wetihio efo'r fformiwla gwadratig.	Tud. 9: Ymarfer defnyddio Rheol y Trapesiwm. Tud. 18 ymlaen: Ymarfer trin ffracsiynau algebraidd.

LLYTHRENNEDD	CYMHWYSEDD DIGIDOL
Llinyn "Darllen", Efen "Strategaethau darllen", Cam Cynnydd 5: "Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am: gramadeg, strwythur brawddegau a thestunau cyfan i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan.": Defnyddio'r cyswllt rhwng uned mesur cyfansawdd a'r dull er mwyn ei gyfrifo.	Dim yn berthnasol.



SYLFAENOL	UWCH
(a) Trigonometreg 3-D.	Gwersi: 0 Sylfaenol / 2 Uwch. 3.7.4 cyfrifo ochr neu ongl triongl ongl sgwâr mewn 2 ddimensiwn a 3 dimensiwn.
(b) Y Rheol Sin, Y Rheol Cosin.	Gwersi: 0 Sylfaenol / 6 Uwch. 3.6.2 Siapiau 2 ddimensiwn: • Hyd arcau crwn • Arwynebedd sectorau a segmentau. 3.7.5 ymestyn trigonometreg i onglau o unrhyw faint 3.7.6 cymhwysu gwybodaeth am drigonometreg gydag onglau o unrhyw faint i ddatrys problemau mewn 2 neu 3 dimensiwn, gan gynnwys defnydd priodol o'r rheolau sin a chosin.
(c) Arwynebedd Triongl.	Gwersi: 0 Sylfaenol / 2 Uwch. 3.7.7 defnyddio'r fformiwla: arwynebedd triongl = $\frac{1}{2}ab\sin C$.
(ch) Graffiau Trigonometreg.	Gwersi: 0 Sylfaenol / 3 Uwch. 3.7.8 braslunio, deall ymddygiad, a defnyddio graffiau ffwythiannau trigonometrig.

ADNODDAU	CAMSYNIADAU	NODIADAU
<p>Pecyn Gwaith. Prawf (45 munud): Uwch.</p> <p>Fideos YouTube: Uwch.</p> <p>Pecyn Tasgau Ychwanegol.</p> <p>Hen Gwestiynau Arholiad ar Trigonometreg Pellach; Graffiau Trigonometrig.</p>	<p>Dewis Rheol Sin neu Rheol Cosin i ateb cwestiwn.</p> <p>Trafferthion efo newid y newidynnau yn y fformiwla i ffitio'r triongl o dan sylw.</p>	<p>Mae'r pecyn yma'n addas ar gyfer yr haen uwch yn unig.</p>

ADDYSGU YMATEBOL	CYD-DESTUNAU LLEOL, CENEDLAETHOL A RHYNGWLADOL	CWESTIYNAU CYSYNIADOL	Y DARLUN EHANGACH
Gofyn i ddysgwyr lunio o leiaf 4 tudalen yn eu llyfr adolygu melyn. Llyfr adolygu enghreifftiol ar gael (trefnydd gwybodaeth). Taflen fyfyrion ar gael ar ddiwedd y pecyn.	Tud. 13: Defnyddio trigonometreg i leoli ffôn symudol.	20 cwestiwn ar gael ar wefan Diagnostic Questions.	Tud. 17: Cyflwyno'r cylch unedol, sy'n arwain at ddealltwriaeth o graffiau trigonometreg ac o ystyr y ffwythiannau trigonometrig.

DEALLTWRIAETH GYSYNIADOL	CYFATHREBU GAN DDEFNYDDIO SYMBOLAU	CYMHWYSEDD STRATEGOL	RHESYMU RHESYMEGOL	RHUGLDER
Tud. 6: Profion rheol Sin a rheol Cosin. Tud. 14: Olrhain y fformiwla ar gyfer cyfrifo arwynebedd triongl. Tud. 17: Y Cylch Unedol. Tud. 18-19: Nodweddion graffiau trigonometrig.	Tud. 9, 14: Cylchu o amgylch fformiwla'u er mwyn siwtio'r labeli o'r cwestiwn.	Tud. 11: Pryd i ddefnyddio rheolau Sin a Cosin. Tud. 20: Defnyddio cymesuredd graffiau trigonometrig i ddatrys hafaliadau trigonometrig. Tud. 22: Trawsffurfiadau graffiau trigonometrig.	Tud. 12: Cwestiynau aml-gam trigonometreg. Tud. 16: Cwestiynau cymhwyso arwynebedd triongl.	Tud. 4: Adolygu gwaith blaenorol ar Trigonometreg. Tud. 7-8: Ymarfer cymhwyso Rheol Sin a Cosin. Tud 15: Ymarfer cyfrifo arwynebedd triongl.

LLYTHRENNEDD	CYMHWYSEDD DIGIDOL
Ateb cwestiynau trigonometreg mewn cyd-destun: Llinyn "Darllen", Elfen "Strategaethau darllen", Cam Cynnydd 3: "Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau er mwyn dod o hyd i wybodaeth, e.e. cip ddarllen (sgimio) am yr hanfodion, llithr ddarllen (sganio) am fanylion."	Rhaglennu'r Sphero (tasg estyniad): Llinyn "Data a meddwl cyfrifiadurol", elfen "Datrys problemau a modelu", cam cynnydd 4: "Rwy'n gallu creu model syml neu algorithm annibynnol"; "Rwy'n gallu nodi patrymau sy'n ailadrodd mewn algorithm a defnyddio iteriadau i wneud yr algorithm yn fwy effeithlon".



SYLFAENOL	UWCH
(a) Cynnig a Gwella.	Gwersi: 6 Sylfaenol / 0 Uwch.
2.2.9 datrys amrywiaeth o hafaliadau ciwbig drwy ddulliau cynnig a gwella, gan gyfiawnhau cywirdeb y datrysiad.	
(b) AER, APR.	Gwersi: 0 Sylfaenol / 4 Uwch.
	1.8.5 cyfrifo, defnyddio a chymhwyso Cyfradd Gyfwerth Flynyddol (<i>AER</i>) wrth gymharu cynhyrchion ariannol. 1.8.6 cyfrifo, defnyddio a chymhwyso Cyfradd Ganrannol Flynyddol (<i>APR</i>) wrth gymharu cynhyrchion ariannol, gan gynnwys morgesi.
(c) Mopio.	Gwersi: 1 Sylfaenol / 1 Uwch.
1.4.6 mynegi un rhif fel ffracsiwn neu ganran o rif arall. 2.1.9 symleiddio ffracsiynau algebraidd, gan gynnwys adio a thynnu ffracsiynau gyda thermau sy'n gysonion fel enwaduron. 2.5.2 dehongli cynrychioliadau graffigol sy'n cael eu defnyddio yn y cyfryngau, gan gydnabod y gall rhai graffiau fod yn gamarweiniol. 4.2.3 llunio graffiau llinell ar gyfer gwerthoedd newidyn ar bwyntiau amrywiol mewn amser; deall efallai y bydd neu na fydd ystyr i'r gwerthoedd canolraddol mewn graff llinell. 4.2.7 sylweddoli nad yw cydberthyniad yn awgrymu achosiaeth. 4.2.21 sylweddoli y gall graffiau fod yn gamarweiniol.	2.1.12 ehangu dau fynegiad mewn un newidyn, lle mae'r naill yn llinol a'r llall yn gwadratig. 3.5.10 trawsnewid rhwng unedau arwynebedd a chyfaint.

ADNODDAU	CAMSYNIADAU	NODIADAU
Pecyn Gwaith: Sylfaenol / Uwch . Prawf (45 munud): Uwch . Fideos YouTube: Sylfaenol / Uwch . Pecyn Tasgau Ychwanegol . Hen Gwestiynau Arholiad ar Cyfradd Gywerth Flynyddol .	Gwahaniaethu rhwng AER ag APR.	Mae ail bennod y pecyn yma'n addas ar gyfer yr haen uwch yn unig.

ADDYSGU YMATEBOL	CYD-DESTUNAU LLEOL, CENEDLAETHOL A RHYNGWLADOL	CWESTIYNAU CYSYNIADOL	Y DARLUN EHANGACH
Gofyn i ddysgwyr lunio o leiaf 4 tudalen yn eu llyfr adolygu melyn. Llyfr adolygu enghreifftiol ar gael (trefnydd gwybodaeth). Taflen fyfyrion ar gael ar ddiwedd y pecyn.	Tud. 13: Ystyried dulliau gwahanol o fenthyg arian.	10 cwestiwn ar gael ar wefan Diagnostic Questions.	Cyflwyno'r syniad o AER ag APR, sy'n ymddangos wrth fenthyg neu fuddsoddi arian.

DEALLTWRIAETH GYSYNIADOL	CYFATHREBU GAN DDEFNYDDIO SYMBOLAU	CYMHWYSEDD STRATEGOL	RHESYMU RHESYMEGOL	RHUGLDER
Tud. 3: Cynnig a gwella. Tud. 9: Ystyr AER. Tud. 12: Ystyr APR.	Tud. 6: Gweithio efo'r Table Mode ar gyfrifiannell.	Tud. 4: Sut i osod allan ateb i gwestiwn cynnig a gwella. Tud. 11: Dull amgen o gyfrifo AER.	Tud. 8: Cysylltu cynnig a gwella efo problemau go iawn. Tud. 10: Ystyried y dull gorau o fenthyg arian. Tud. 13: Ystyried dulliau gwahanol o fenthyg arian.	Tud. 7: Ymarfer gwahanol ddulliau o gynnig a gwella. Tud. 9: Ymarfer defnyddio'r gyfradd llog enwol. Tud. 14: Ymarfer defnyddio AER ag APR.

LLYTHRENNEDD	CYMHWYSEDD DIGIDOL
Ateb cwestiynau AER ag APR mewn cyd-destun: Llinyn "Darllen", Efen "Strategaethau darllen", Cam Cynnydd 3: "Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau er mwyn dod o hyd i wybodaeth, e.e. cip ddarllen (sgimio) am yr hanfodion, llithr ddarllen (sganio) am fanylion."	Dim yn berthnasol.